Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH,<br>21 MEHEFIN, 2022 am 2.00 o'r gloch | | TUESDAY,<br>21 JUNE, 2022 at 2.00 p.m. |
| CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW | | VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes<br>01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones **(Is-gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Euryn Morris, Trefor Ll Hughes MBE, John I Jones, Dylan Rees **(Cadeirydd/Chair),** Margaret M Roberts, Ken Taylor

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Paul Ellis, Jeff Evans, Derek Owen

**Llafur Cymru/Welsh Labour**

Pip O'Neill

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Gwag/Vacant (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Gwag/Vacant (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Gwag/Vacant (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

**R H A G L E N**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem of fusnes.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd fel a ganlyn:-

- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 8 Mawrth, 2022.
- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 31 Mai, 2022 (Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd).

**4 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR SAFONAU'R GYMRAEG 2021/22** (Tudalennau 11 - 40)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**5 ENWEBU AELODAU SGRIWTINI I WASANAETHU AR BANELI A BYRDDAU** (Tudalennau 41 - 60)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**6 BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 61 - 68)

Cyflwyno y Blaen Raglen Waith.

**7 EITEM ER GWYBODAETH** (Tudalennau 69 - 96)

Adroddiad Cynnydd Chwarter 4 : 2021/22 – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar yr 8fed o Fawrth 2022

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Glyn Haynes (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Dafydd Roberts a Margaret Murley Roberts |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (eitem 5),<br>Rheolwr Busnes (eitem 5),<br>Rheolwr Polisi a’r Gymraeg (FO) (eitem 4),<br>Swyddog Polisi (RWJ) (eitem 4),<br>Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth Strategol) (SOJ),<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ),<br>Rheolwr Sgriwtini (AD),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd Kenneth P Hughes, Cynghorydd Robert Llewelyn Jones a Cynghorydd Nicola Roberts.<br><br>Cynghorwyr Alun Mummery, Dafydd R Thomas a Robin Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd Llinos M Huws<br>Cynghorydd R Meirion Jones – Deilydd Portffolio (Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant a Phobl Ifanc)<br>Cynghorydd Bob Parry – Deilydd Portffolio (Priffyrdd, Eiddo a Rheoli Gwastraff)<br><br>Mrs Sandra Thomas - Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn (eitem 6)<br><br>Ms Helen Kilgannon – Rheolwr Rhanbarthol Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cyngor Gogledd Cymru (eitem 7)<br><br>Mr Jon Zalot - Swyddog Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru (eitem 7) |

---

Estynnodd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor eu dymuniadau gorau i Mrs Annwen Morgan, y Prif Weithredwr ar ei hymddeoliad.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

## 2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 3 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 18fed o Ionawr 2022 fel cofnod cywir.

## 4 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYDRADDOLDEB - 2020/2021

Cyflwynwyd – yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2020/21 i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn dangos ymrwymiad y Cyngor i sicrhau fod cydraddoldeb yn rhan o brif ffrwd waith yr Awdurdod. Mae hyn yn cynnwys amlinelliad o gynnydd yn erbyn gwaith sy'n ymwneud â blaenoriaeth y Cyngor i sefydlu proses gorfforaethol effeithiol i sicrhau asesiad parhaus o effaith ar draws gwasanaethau.

Dywedodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg fod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus sy'n dod o dan Reoliadau Dyletswyddau Statudol Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011 gyhoeddi adroddiad cydraddoldeb blynyddol erbyn 31 Mawrth y flwyddyn ar ôl pob cyfnod adrodd. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddyletswyddau penodol i gynorthwyo cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol hon. Mae'r dyletswyddau penodol hyn yn cynnwys gofyniad i ddatblygu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol o leiaf unwaith bob pedair blynedd. Pwrpas yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yw dangos sut mae'r Cyngor wedi cyflawni'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol. Dywedodd ymhellach fod y data cyflogaeth yn yr adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill, 2020 a 31 Mawrth, 2021.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaeth y prif bwyntiau a ganlyn: -

- Gofynnwyd a oes modd addasu'r Adroddiad Blynyddol i fod yn hygyrch a'i ysgrifennu mewn ffordd sy'n haws ei ddeall. Ymatebodd y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg y gellir addasu'r ddogfennaeth ond bod angen cynnwys y data a'r wybodaeth benodol. Fodd bynnag, pwysleisiodd fod angen mynd i'r afael â'r prif negeseuon mewn perthynas â chydraddoldeb ac y bydd ystyriaeth yn cael ei roi i sut i gyflwyno'r wybodaeth o fewn yr adroddiad er mwyn rhoi sylw i fyfyrio priodol o fewn y fframwaith a osodwyd;
- Cyfeiriwyd at y graffiau gwybodaeth cyflogaeth yn yr adroddiad a mynegwyd pryderon y gallai unigolion wrthwynebu cael eu labelu gan nodwedd warchodedig. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor er ei bod yn derbyn y sylwadau a wnaed, bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl y data;
- Holwyd pa gamau sydd wedi eu rhoi ar waith i sicrhau nad yw plant a phobl fregus yn profi anghydraddoldeb o ganlyniad i'r pandemig. Ymatebodd

Arweinydd y Cyngor fel y gwelir o fewn yr adroddiad ynglŷn â'r modd y mae'r Adran Addysg wedi ymateb yn ystod y pandemig gyda Chromebooks yn cael eu rhoi i'r plant a mynediad i'r rhyngrwyd wedi ei ddiogelu er mwyn i'r plant allu derbyn addysg gartref. Dywedodd ymhellach fod y Gwasanaeth Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweithio i adnabod plant bregus gyda chynlluniau ar y cyd a Swyddogion Lles yn cydweithio i gwrdd â'u hanghenion. Pob ysgol wedi derbyn grant 'Carlam Cymru' er mwyn hwyluso'r ysgolion i fynd i'r afael â'r heriau yn eu hysgolion;
- Gofynnwyd a yw'r Cyngor wedi cyflawni'r amcanion cydraddoldeb. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei nodau cydraddoldeb fel oedd yn bosibl, tra bod y pandemig wedi bod yn heriol gyda phobl yn gorfod hunan-ynysu ac yn methu â chymdeithasu. Mae'r amcan cydraddoldeb yn rhan annatod o waith y Cyngor a chaiff cynnydd ei fesur dros gyfnod estynedig yn hytrach na chyfnod o ddeuddeng mis;
- Codwyd cwestiynau ynghylch sut y bwriedir sicrhau bod y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn dod yn rhan annatod o waith y Cyngor. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor fod trafodaethau wedi eu cynnal yn y 'sesiynau briffio aelodau etholedig' i godi ymwybyddiaeth o ddyletswydd economaidd-gymdeithasol y Cyngor. Nododd fod y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol wedi'i chodi ym Mwrdd Uchelgais Gogledd Cymru er mwyn gallu gwneud gwahaniaeth i gymunedau lleol pan fydd darpar ddatblygwyr yn buddsoddi yn ardaloedd lleol yr Ynys;
- Nodwyd y gall tlodi o fewn cymunedau gael effaith ar addysg. Pwysleisiwyd ei bod yn hollbwysig i blant a phobl ifanc gael y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial a'u galluogi i ymgeisio am gyfleoedd cyflogaeth. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor y byddai agor yr ysgolion newydd ar yr Ynys mewn ardaloedd difreintiedig yn annog ac yn datblygu plant a phobl ifanc i allu cyrraedd eu llawn botensial.

**PENDERFYNWYD derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2020/21.**

**GWEITHRED : Fel y nodwyd uchod.**

## 5 ADRODDIAD ANGHENION Y BOBLOGAETH: DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014

Cyflwynwyd – cyflwyniad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod trosolwg o Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022 yn cael ei gynhyrchu fel un o ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Dywedodd yr ymgynghorwyd â sefydliadau partner a defnyddwyr gwasanaeth i nodi anghenion strategol ar gyfer gofal a chymorth.

Adroddodd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod yr adroddiad asesiad anghenion y boblogaeth wedi'i lywio gan ymgysylltiad fel sydd wedi ei nodi gan Arweinydd y Cyngor. Mae'r adroddiad yn darparu sylfaen dystiolaeth i gefnogi sefydliadau a gwasanaethau ar draws y rhanbarth, yn benodol mae i'w ddefnyddio ar gyfer cylchoedd cynllunio strategol sy'n sail i integreiddio gwasanaethau a chefnogi trefniadau partneriaeth. Bydd cam nesaf y prosiect yn cynnwys defnyddio'r

asesiad poblogaeth i ddatblygu Cynllun Ardal ar gyfer y rhanbarth. Gall gwaith ar y cynllun ardal yn y dyfodol gynnwys ymchwil ac ymgynghori pellach i archwilio meysydd blaenoriaeth yn fanylach cyn cytuno pa feysydd i'w blaenoriaethu ar gyfer gwaith rhanbarthol. Mae'r Cynllun Ardal i'w ddatblygu a'i gyhoeddi yn 2023.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaeth y prif bwyntiau canlynol :-

- Holwyd a oedd anghenion Ynys Môn wedi cael sylw o fewn yr asesiad yn benodol o ran y Gymraeg. Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion at yr atodiad ynghlwm i'r adroddiad sy'n cyfeirio at Ynys Môn a'r broses ymgynghori sydd wedi'i chynnal yn ystod cyfnod anodd y pandemig. Nododd fod yr asesiad yn gosod fframwaith o'r cyfeiriad y gall yr Awdurdod ei gymryd ac i rannu arbenigedd gyda sefydliadau eraill. Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr asesiad yn rhoi cyfle i'r Awdurdod hwn ddylanwadu ar anghenion y Gymraeg i sefydliadau partner eraill ar draws y rhanbarth lle nad yw'r Gymraeg o bosibl mor gryf ag ydyw ar Ynys Môn;
- Cyfeiriodd y Cadeirydd at rieni plant awtistig sy'n gorfod aros dros ddwy flynedd i'w plant gael eu hasesu. Dywedodd fod angen mynd i'r afael â'r mater hwn gyda'r asiantaethau perthnasol i wella'r gwasanaeth. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor fod cyllid rhanbarthol wedi'i ddefnyddio i greu gwasanaeth awtistig rhanbarthol. Nododd fod y Bwrdd Iechyd wedi bod yn cael anawsterau recriwtio i'r gwasanaeth pwysig hwn a'i fod hefyd yn cymryd amser i hyfforddi a datblygu'r gweithlu. Sicrhaodd yr Arweinydd y Pwyllgor fod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Bwrdd Iechyd i drafod y capiau a'r gwendidau yn y gwasanaeth.

**PENDERFYNWYD cefnogi'r Adroddiad ar Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022.**

**GWEITHRED : Fel y nodwyd uchod.**

## 6 BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS - CRAFFU CYNNYDD AR WIREDDU'R CYNLLUN LLESIANT / ASESIAD LLESIANT DRAFFT YNYS MÔN

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod yr adroddiad yn amlygu'r cynnydd ar gwblhau'r Cynllun Llesiant, yr Asesiadau Llesiant a diweddariad ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. Roedd yn dymuno croesawu Mrs Sandra Thomas, Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i annerch y Pwyllgor.

Adroddodd y Rheolwr Rhaglen y bydd yr Asesiadau yn tynnu ynghyd ystod o wybodaeth am gymunedau Ynys Môn a Gwynedd. Ymgymerwyd ag ymchwil, data ac ymgysylltu â thrigolion lleol i ganfod beth yw gofynion cymunedau lleol a pha agweddau sydd angen eu gwella. Mae hefyd yn gyfle i ystyried yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu cymunedau. Dywedodd ymhellach fod yr amserlen ar gyfer cwblhau'r Asesiadau Llesiant wedi'i nodi yn Nhabl 1 o'r adroddiad ac y cynhelir cyfnod ymgynghori 12 wythnos tan 15 Mawrth, 2022.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaeth y prif bwyntiau canlynol:-

- Codwyd cwestiynau, yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus, o ran beth fydd y broses a'r amserlen ar gyfer cwblhau'r asesiad llesiant terfynol ar gyfer y Sir. Ymatebodd y Rheolwr Rhaglen y bydd yr Asesiadau Llesiant yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd Mai 2022 ac y gwneir addasiadau pan ddaw gwybodaeth ychwanegol i law. Wedi hynny, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini i'w ystyried cyn ei gynnwys yn y Cynllun Llesiant yn 2023;
- Gofynnwyd i ba raddau y mae'r wybodaeth a gasglwyd hyd yma am y 6 ardal yn adlewyrchiad teg o gyflwr llesiant Ynys Môn. Cyfeiriwyd at Gynghrair Seiriol a'r gwaith a wnaed yn yr ardal dros y ddwy flynedd diwethaf. Ymatebodd y Rheolwr Rhaglen bod angen gwella'r data ar draws y Cymunedau; gobeithir hefyd fewnbynnu'r data o ran y gwaith a wnaed yn y cymunedau lleol yn ystod y pandemig i'r Cynllun Llesiant;
- Codwyd cwestiynau ynglŷn â chynnydd y rhaglen 'siapio lle' o fewn cymunedau lleol. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor fod y 'rhaglen siapio lle' yn ddibynnol ar yr ymrwymiad a bydd anghenion cymunedau lleol yn wahanol ym mhob ardal. Nododd fod egwyddor 'siapio lle' wedi gweithio'n dda gyda Medrwn Môn ac yn enwedig dros ddwy flynedd ddiwethaf y pandemig. Dywedodd y Prif Weithredwr fod nifer o ardaloedd wedi sefydlu'r cynllun 'Tro Da' yn ystod y pandemig. Bydd y Rheolwr Gweithredol o fewn Adran y Prif Weithredwr yn arwain ar y rhaglen 'siapio lle'. Mynegodd yr aelodau bod angen adolygu ardaloedd wardiau'r cymunedau ac yn enwedig yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod angen dysgu gwersi ynglŷn â sut mae'r pandemig wedi effeithio ar y cymunedau lleol ac mae angen gwneud y data a'r mapio, yn y lle cyntaf, er mwyn caniatáu i'r gwirfoddolwyr o fewn y cymunedau ddod ynghyd ac i adnabod y blaenoriaethau fydd yn siapio'r rhaglen waith. Dywedodd ymhellach fod cael canolbwynt/canolfannau cymunedol sefydledig mewn trefi a chymunedau yn fanteisiol i wirfoddolwyr allu cefnogi eu cymunedau lleol.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Derbyn yr amserlen arfaethedig ar gyfer creu'r Cynllun Llesiant newydd sydd i'w gyhoeddi ym Mai 2023;**
- **Derbyn Asesiadau Llesiant Drafft Ynys Môn.**

**GWEITHRED : Fel y nodwyd uchod.**

## 7 ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETH CYNLLUNIO ARGYFWNG RHANBARTHOL: 2020/21

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod gan y Cyngor ddyletswyddau ar gyfer cynllunio ac ymateb i argyfyngau o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001, a Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996. Mae'r Cyngor yn brif ymatebwr ac yn cwrdd â'i ddyletswyddau drwy gydweithio ag Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru drwy Wasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cyngor Gogledd Cymru.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr mai Gogledd Cymru yw'r rhanbarth cyntaf yng Nghymru i ffurfio gwasanaeth cwbl integredig i gefnogi'r holl Gynghorau i gyflawni eu dyletswyddau. Fe'i cefnogir gan Fwrdd Gweithredol o bob un o'r chwe Chyngor. Ategir hyn gan Gytundeb Lefel Gwasanaeth a Chytundeb Rhwng Awdurdodau. O fewn y Cyngor, rhennir cyfrifoldebau ar gyfer cynllunio ac ymateb i argyfyngau ar draws gwasanaethau a chaiff cynrychiolwyr gwasanaeth enwebedig eu nodi o fewn strwythur y Tîm Rheoli Ymateb i Argyfwng. Dywedodd ymhellach fod gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaethau brys, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn hanfodol i fynd i'r afael ag unrhyw argyfwng sy'n codi. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr mai'r gobaith yw y bydd mesurau brys yn ymwneud â'r pandemig yn lleddfu a'i bod yn amserol i'r Gwasanaethau Cynllunio at Argyfwng adolygu'r gweithdrefnau a dysgu a gwella unrhyw weithdrefnau brys yn y dyfodol yn dilyn y pandemig.

Dywedodd y Rheolwr Rhanbarthol – Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cyngor Gogledd Cymru fod y Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol yn gallu cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol yn ystod y pandemig. Roedd y Gwasanaeth yn cefnogi awdurdodau lleol a'r gwasanaethau iechyd i nodi canolfannau brechu, mynychu grŵp gwytnwch lleol a grwpiau cydgysylltu strategol ar ran yr awdurdodau lleol. Parhaodd gwaith aml-asiantaeth a rhoddwyd cynllun profi ymchwydd ar waith oherwydd y lefelau uchel o covid a nodwyd mewn rhai ardaloedd.

Dywedodd y Swyddog Rhanbarthol Cynllunio Argyfwng fod y Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol wedi gweithio ar y cyd gyda'r awdurdod lleol ac asiantaethau eraill yn ystod y stormydd diweddar. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi cefnogi'r awdurdodau lleol gyda'r streic bysiau a'r argyfwng tanwydd llynedd.

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr mewn perthynas â'r uchod:-

- Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan gwmnïau ar yr Ynys eu gweithdrefnau argyfwng eu hunain yn yr un modd ag yng Ngorsaf Ynni Niwclear Wylfa pan gynhaliwyd ymarferion brys. Ymatebodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y cwmnïau ar yr Ynys yn ymwybodol o'u dyletswydd statudol a'u bod yn cynnal ymarferion brys a gweithdrefnau hyfforddi. Mae'r sefydliadau a fyddai'n ymateb i unrhyw ddigwyddiad yn rhan o'r ymarferion hyn ac i wneud yn siŵr bod y broses ymateb mor gadarn â phosibl. Dywedodd y Rheolwr Rhanbarthol fod y Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng yn rhan o'r ymarfer brys gyda sefydliadau brys eraill. Mae hyn yn caniatáu i'r asiantaethau ar y cyd adeiladu perthynas waith dda â'i gilydd i fynd i'r afael ag unrhyw argyfwng a all godi;
- Nodwyd bod y stormydd diweddar wedi effeithio ar lawer o ardaloedd yn y DU gan arwain at golli trydan am nifer o ddyddiau. Holwyd a oes darpariaeth yn ei lle gan y Gwasanaeth Argyfwng Rhanbarthol i fynd i'r afael â cholli trydan o'r fath ar yr Ynys. Ymatebodd y Swyddog Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng y byddai pob asiantaeth yn cydweithio mewn argyfwng o'r fath gyda cholli pŵer oherwydd stormydd. Mae cydweithio yn digwydd gyda Scottish Power i fynd i'r afael â'u rôl;
- Cyfeiriwyd at y ddamwain ffordd ddifrifol ddiweddar ar ffordd Biwmares ac roedd y tagfeydd traffig yn peri pryder. Gofynnwyd a yw cyfathrebu â'r cyhoedd yn ddigonol. Ymatebodd y Dirprwy Brif Weithredwr gan ddweud bod angen rhoi

gwybod am ddigwyddiadau o'r fath i fodurwyr sy’n teithio yn yr ardal cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, er y gall cyfryngau cymdeithasol fod o fantais, gall difrod stormydd effeithio ar gysylltiadau rhyngrwyd ac mae angen rhoi prosesau wrth gefn ar waith.

**PENDERFYNWYD nodi cynnydd gwaith Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cyngor Gogledd Cymru hyd yma.**

**GWEITHRED : Fel y nodwyd uchod.**

**8 EITEM ER GWYBODAETH**

Roedd yr eitem ganlynol er gwybodaeth yn unig:-

Adroddiad Cynnydd Chwarter 3: 2021/22 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30 pm

**CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 31 Mai, 2022

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL :** | Y Cynghorydd Non Dafydd, Paul Ellis, Jeff Evans, Euryn Morris, Trefor Ll Hughes MBE, Gwilym O Jones, John Ifan Jones, Pip O'Neill, Derek Owen, Dylan Rees, Margaret M Roberts, Ken Taylor. |
| **WRTH LAW :** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dafydd Roberts – Cadeirydd y Cyngor Sir |

---

**1 DATGAN DIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Dylan Rees yn Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**3 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Gwilym O Jones yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**Y CYNGHORYDD DAFYDD ROBERTS**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>**Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 21 Mehefin 2022 |
| **Pwnc:** | Adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg 2021-2022 |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | Cyflwyno'r adroddiad blynyddol er sylwadau cyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth dirprwyedig i'w gyhoeddi |
| **Cadeirydd sgriwtini:** | Cynghorydd Dylan Rees |
| **Aelod(au) portffolio:** | Cynghorydd Ieuan Williams |
| **Pennaeth gwasanaeth:** | Dylan Williams, Prif Weithredwr |
| **Awdur yr adroddiad:**<br>**Rhif ffôn:**<br>**E-bost:** | Ffreuer Owen, Rheolwr Polisi a'r Gymraeg<br>01248 752561<br>FfreuerOwen@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

## 1. Argymhelliad

Gwahoddir y Pwyllgor i wneud sylwadau ar yr adroddiad blynyddol ar safonau'r Gymraeg ar gyfer 2021-2022 cyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth dirprwyedig gan yr aelod portffolio i'w gyhoeddi.

## 2. Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / blaenoriaethau corfforaethol eraill

- Mae Cynllun y Cyngor 2017-2022 yn nodi, 'rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu a datblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg a'i chyfraniad i hunaniaeth ddiwylliannol a threftadaeth yr Ynys'.
- Un o feysydd blaenoriaeth Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 yw y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith.
- Cymeradwyodd y Cyngor llawn ein polisi iaith Gymraeg ar 12 Mai 2016. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn esbonio sut y gweithredwyd y polisi yn ystod 2021-22.

## 3. Egwyddorion fel canllaw ar gyfer sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo aelodau wrth graffu ar y pwnc:**

**3.1 Ffocws ar y cwsmer/dinesydd**
Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau

**3.2 Ffocws ar werth**
Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd

**3.3 Ffocws ar risg**
Edrych ar unrhyw risgiau

**3.4 Ffocws ar berfformiad ac ansawdd**
Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd

**3.5 Ffocws ar lesiant**
Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**3.6 Ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg**

Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**4. Cwestiynau sgriwtini allweddol**

i. A oes unrhyw risgiau penodol sy'n codi consyrn am gydymffurfiaeth y Cyngor gyda gofynion safonau'r Gymraeg?

ii. Derbyniom fwy o gwynion yn ystod 2021/22 am y Gymraeg. Oes unrhyw dueddiadau penodol sy'n creu consyrn i'r Cyngor?

iii. Beth yw'r prif heriau sy'n ein hwynebu o ran prif lifo'r Gymraeg o fewn y Cyngor?

iv. Manteisiodd lai o swyddogion ar hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod 2021/22. Beth yn fwy gallwn ni ei wneud fel Cyngor i gefnogi swyddogion i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg?

v. Oes unrhyw ddata ychwanegol fyddai'n ychwanegu gwerth i'r adroddiad blynyddol?

**5. Cefndir / cyd-destun**

O dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 rhaid i'r Cyngor baratoi adroddiad blynyddol yn egluro sut yr aethom ati i gwrdd â safonau'r Gymraeg. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y meysydd canlynol:

- Camau a gymerwyd i gydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaethau, llunio polisi a gweithredu
- Camau gweithredol i hyrwyddo safonau'r Gymraeg
- Hunan reoleiddio
- Gwaith datblygol i hybu defnydd o'r Gymraeg gan ddefnyddwyr ein gwasanaethau, ein swyddogion ac yn ein gweinyddiaeth
- Adroddiad ar berfformiad – data cwynion, cyflogaeth, hyfforddiant a recriwtio

**6. Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (gan gynnwys effeithiau ar y Gymraeg)**

**6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Yn unol â'n harfer bydd yr adroddiad blynyddol ar gael mewn fformatau eraill drwy gais. Mae hyn wedi ei nodi'n glir tu mewn i glawr y ddogfen. Bydd hefyd ar gael ar ffurf copi caled ym mhob un o swyddfeydd y Cyngor i unrhyw un sy'n gofyn amdano.

| |
|---|
| Gweler 6.3 isod am ystyriaeth o'r effaith ar y Gymraeg. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Amherthnasol. Nid yw cymeradwyo'r adroddiad blynyddol ar safonau'r Gymraeg yn benderfyniad strategol. |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Yn ogystal ag ystyried cydymffurfiaeth y Cyngor gyda gofynion y safonau, mae paratoi'r adroddiad blynyddol yn gyfle pwysig i ystyried sut aethom ati i hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn ein gweinyddiaeth. Gweler yr adroddiad am y camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn. |
| **7. Goblygiadau ariannol** |
| Amherthnasol. |
| **8. Atodiadau** |
| Adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg 2021-2022 |
| **9. Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
| • Hysbysiad cydymffurfio dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br>• Polisi Iaith Gymraeg<br>• Llunio adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg: Dogfen gyngor arferion da |

POLISI A'R GYMRAEG

# Adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg 2021-2022

Sut yr aethom ati i gwrdd â'r safonau ac i hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

**Dyddiad cyhoeddi:** Mehefin 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg | This publication is available in English

# Adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg

**Trosolwg**
Dyma adroddiad blynyddol Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ar safonau'r Gymraeg. Mae'n gwerthuso sut yr aethom ati i gydymffurfio â'r safonau, ac i hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ystod y cyfnod dan sylw.

Fe'i paratowyd yn unol â gofynion Atodlen 4 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, safonau 158, 164 a 170.

**Mwy o wybodaeth**
Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar ein gwefan yn www.ynysmon.llyw.cymru. Os oes ei angen arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Ffreuer Owen
Rheolwr Polisi a'r Gymraeg
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
LL77 7TW

Ffôn: 01248 75 00 57
E-bost: FfreuerOwen@ynysmon.llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.
This publication is also available in English.

**Dogfennau cysylltiedig**
Hysbysiad cydymffurfio dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; Polisi Iaith Gymraeg; Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026. I gyd ar gael ar ein gwefan.

# Cynnwys

Rhagair .......... 1
Crynodeb gweithredol .......... 2
Cefndir .......... 3
Edrych yn ôl dros y flwyddyn .......... 4
Safonau cyflenwi gwasanaethau .......... 6
Safonau llunio polisi .......... 11
Safonau gweithredu .......... 13
Edrych ymlaen .......... 15
Atodiad 1: Data cwynion .......... 17
Atodiad 2: Data cyflogaeth, hyfforddiant a recriwtio .......... 19

# Rhagair

Rydym yn falch o gyhoeddi ein chweched adroddiad blynyddol ers i safonau'r Gymraeg ddod i rym ym mis Mawrth 2016. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar sut yr aethom ati i gyflawni ein dyletswyddau o dan y safonau ac i hybu'r Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

Roedd hon yn flwyddyn anarferol arall wrth i ni barhau i ymateb i heriau'r pandemig COVID-19. Gorfododd yr argyfwng iechyd cyhoeddus i ni addasu ein ffyrdd o weithio i ymateb yn gyflym i'r amgylchiadau eithriadol. Er gwaethaf y sefyllfa anwadal, ni fu unrhyw gyfaddawdu ar safon ein gwasanaethau Cymraeg eto eleni. I'n swyddogion mae'r diolch am hynny.

I nifer o'n trigolion mae defnyddio'r Gymraeg yn fater o angen nid dewis. Rydym yn hynod o freintiedig bod gennym weithlu sy'n deall pa mor bwysig yw rhoi gwasanaeth Cymraeg i bobl Môn, yn enwedig mewn cyfnod pryderus.

Mae pwysigrwydd y Gymraeg a'n dyletswydd i ddatblygu defnydd ohoni oddi fewn ac oddi allan i'r Cyngor i'w deimlo ar bob lefel, sy'n dipyn o gamp i sefydliad sy'n cyflogi dros 3,000 o bobl. Hoffem gyfleu ein diolch i Annwen Morgan am ei hymroddiad di-gwestiwn i'r iaith yn ystod ei chyfnod fel prif weithredwr. Diolch hefyd i'n cynghorwyr am eu hewyllys a'u cefnogaeth barod sy'n golygu bod gan y Gymraeg le canolog ym mhopeth a wnawn.

Byddwn yn parhau â'r un ysbryd ymroddgar a chadarnhaol tuag at yr iaith wrth i ni symud i gyfnod newydd yn ein hanes dan arweinyddiaeth wleidyddol a sefydliadol newydd.



**Cynghorydd Llinos Medi**
Arweinydd



**Cynghorydd Ieuan Williams**
Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg



**Dylan J. Williams**
Prif Weithredwr

**Mehefin 2022**

# Crynodeb gweithredol

## Pwrpas yr adroddiad


Er mai asesu cydymffurfiaeth yw prif bwrpas yr adroddiad hwn, mae'n gyfle inni ystyried sut aethom ati i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg dros y flwyddyn. Mae hefyd yn gyfle pwysig i gydnabod gwaith arbennig ein swyddogion sy'n gyfrifol am gynnal ein safon uchel o wasanaethau Cymraeg. Dyma rai o'r llwyddiannau:



Cymeradwyo ein hail strategaeth hybu'r Gymraeg



Lansio microwefan newydd am y Gymraeg ym Môn



Cyfieithu dros ddwy filiwn o eiriau



Sgiliau iaith Gymraeg gan dros 90% o'n swyddogion



Canmoliaeth i'n gwasanaeth cyfrwng Cymraeg i'n trigolion mwyaf bregus

## Gair am ein gwasanaethau Cymraeg gan ddefnyddwyr a'u hanwyliaid

“Diolch arbennig i'r genod i gyd, pob un ohonynt ar bob shift. Roedden i gyd yn hynod o garedig… Ers y dechrau roeddem yn sicr mai Garreglwyd oedd y lle gorau iddi… Mae diwylliant Cymreig yn hollol wahanol a ni fyddai Mam wedi bod yn setlo o gwbl heb y Gymraeg, y miwsig a'r canu.”

“...roedd y ffaith y gellid trafod y mater yn Gymraeg yn ganolog wrth i [ddefnyddiwr gwasanaeth] roi ei ymddiriedaeth ynom.”

“Mor ddiolchgar [ei fod] wedi cael cartref cartrefol Cymraeg.”

# Cefndir

1. **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd arnom i gwrdd â safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r safonau'n egluro sut mae disgwyl i ni ddefnyddio neu ystyried yr iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd. Egwyddorion sylfaenol y safonau yw:


    - na ddylem drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; ac
    - y dylem hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg er mwyn ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r iaith.

2. Derbyniom **hysbysiad cydymffurfio** gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2015. Dyma'r ddogfen sy'n nodi'r union safonau y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw. Mae **160 o safonau** i gyd wedi eu gosod arnom. Gallwch weld eu manylion, a darllen mwy am ein trefniadau i gwrdd â nhw, ar ein gwefan.

3. Ein **polisi iaith Gymraeg** sy'n egluro sut y byddwn yn gweithredu'n unol â gofynion y safonau. Cafodd ei fabwysiadau'n fuan wedi i'r safonau ddod i rym yn 2016. Mae'n dilyn yr egwyddor bod gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal yn ein gwaith a'n gweinyddiaeth. Mae hefyd yn cydnabod ein cyfrifoldeb i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg a datblygu'r defnydd o'r iaith oddi fewn ac oddi allan i'r Cyngor.

4. Ochr yn ochr â'n polisi iaith a'r safonau eu hunain, rydym yn cyhoeddi **adroddiad blynyddol** sy'n disgrifio sut yr ydym wedi cyflawni ein dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae hefyd yn cynnwys data penodol y mae'n rhaid i ni adrodd arno yn flynyddol am gwynion, sgiliau Cymraeg ein swyddogion, hyfforddiant a swyddi a hysbysebwyd gennym. Mae'r wybodaeth hon i'w chael yn llawn yn yr atodiadau.

5. Cafodd yr adroddiad ei gymeradwyo gan ein Tîm Arwain Strategol, sy'n cynnwys ein prif weithredwr, dirprwy a'n cyfarwyddwyr. Craffwyd arno gan ein Pwyllgor Sgriwtini (Partneriaeth ac Adfywio) a Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg ac fe'i gymeradwywyd yn derfynol gan yr aelod portffolio perthnasol.




6. Ein Rheolwr Polisi a'r Gymraeg sydd â chyfrifoldeb dydd i ddydd am y safonau ac am hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Cyngor. Y Prif Weithredwr yw'r aelod o'r Tîm Arwain Strategol sy'n gyfrifol am gadw trosolwg strategol ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith. Mae gennym hefyd aelod portffolio sy'n cymryd cyfrifoldeb am y Gymraeg ar bwyllgor gwaith y Cyngor. Mae'r grŵp sy'n cynnwys cynghorwyr a swyddogion allweddol, Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg, yn cadw trosolwg dros ein defnydd o'r Gymraeg ac yn helpu i hybu'r iaith ym mhob agwedd o'n gwaith.

# Edrych yn ôl dros y flwyddyn

Gwelodd y cyfnod sawl datblygiad pwysig i hyrwyddo a chodi proffil yr iaith o fewn y Cyngor ac yn ehangach ym Môn. Mae’r adran hon yn crynhoi rhai o’r llwyddiannau:

## Strategaeth Hybu’r Gymraeg

Ein prif lwyddiant safbwynt ein hymrwymiad i’r Gymraeg oedd cymeradwyo ein hail strategaeth pum mlynedd ar gyfer hybu’r Gymraeg ym Môn ym mis Rhagfyr 2021. Mae’r strategaeth yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer yr iaith ac yn cynnwys targed uchelgeisiol ar gyfer cynyddu nifer siaradwyr Cymraeg yr ynys. Ei phwrpas yw esbonio sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i greu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg, annog mwy o ddefnydd o’r iaith ac, yn y pen draw, gweld mwy o siaradwyr erbyn 2026.

Mae’n canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth sef:

| | |
|---|---|
| 1. Plant, pobl ifanc a'r teulu | • Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu<br>• Y blynyddoedd cynnar<br>• Addysg orfodol<br>• Addysg ôl-orfodol a pharatoi ar gyfer y byd gwaith |
| 2. Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith | • Gweinyddu mewnol<br>• Hyfforddiant a datblygu sgiliau Cymraeg ein gweithlu<br>• Technoleg<br>• Cynllunio ac annog defnydd o wasanaethau Cymraeg |
| 3. Y gymuned | • Cynllunio gwlad a thref a thai<br>• Twristiaeth a busnesau<br>• Y di-Gymraeg a newydd ddyfodiaid<br>• Gweithgarwch cymunedol |

Paratowyd y strategaeth yn unol â gofynion y safonau hybu a gallwch ei darllen ar ein gwefan.

## Tîm Polisi a’r Gymraeg

Un o ddatblygiadau mwyaf arwyddocaol y flwyddyn oedd uno’r gwasanaeth Cyfieithu gyda’r tîm sy’n gyfrifol o ddydd i ddydd am y safonau ac am hyrwyddo’r Gymraeg. Mae hyn yn golygu bod ein holl swyddogion sy’n cefnogi ein cydweithwyr a’n cynghorwyr i ddefnyddio’r iaith yn eu gwaith yn perthyn i’r un tîm. Mae saith aelod o’r tîm Polisi a’r Gymraeg, yn cynnwys:

- Rheolwr Polisi a’r Gymraeg
- Swyddog Polisi
- Swyddog Hyrwyddo Polisi a’r Gymraeg (swydd wag ar hyn o bryd)
- Rheolwr Gwasanaeth Cyfieithu a thri chyfieithydd cymwys sy’n gyfrifol am gyfieithu testun ac ar y pryd mewn cyfarfodydd

Mae cefnogaeth y gwasanaeth Cyfieithu yn hanfodol er mwyn cwrdd â'n dyletswyddau o dan y safonau. Cyfieithodd y tîm dros **ddwy filiwn o eiriau** yn ystod y flwyddyn a darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ganddynt mewn **dros 300 o gyfarfodydd**.

Mae'r tîm wedi gorfod addasu ar gyflymder digynsail yn ddiweddar. Ar ddechrau'r pandemig COVID-19 bu'n rhaid iddynt gyfieithu ar y pryd dros y ffôn oherwydd diffyg darpariaeth gan Microsoft Teams. Byddai cyflwyno ail sianel ar gyfer cyfieithu ar y pryd fel rhan o'r feddalwedd yn ddatblygiad y byddem yn ei groesawu'n fawr.

Yn dilyn hynny, pwysodd y tîm am newid i ddefnyddio Zoom oherwydd hwylustod y dechnoleg. O ganlyniad mae cyfarfodydd a phwyllgorau rhithiol bellach yn naturiol ddwyieithog. Bydd Zoom hefyd yn elfen o'n gwasanaeth hybrid newydd fydd ar gael ar ôl uwchraddio offer siambr ac ystafell bwyllgor y Cyngor ac yn ddatblygiad technolegol cyffrous o ran gweithio o bell yn ddwyieithog.

## Hunaniaeth gorfforaethol

Roedd newid cyfeiriad ein gwefan i www.ynysmon.llyw.cymru ar 1 Mawrth 2022 yn gam pwysig ymlaen inni. Cafodd y penderfyniad i ddisodli'r hen enw parth www.ynysmon.gov.uk ei wneud gan ein Pwyllgor Gwaith fel rhan o'r ymdrech barhaus i hyrwyddo o'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn. Mae'n golygu bod y Gymraeg yn cael ei hadlewyrchu'n llawn yn ein hunaniaeth gorfforaethol.

Ond, mae gennym fwy o waith i wneud. Er mwyn lliniaru'r effaith ar ein gwasanaethau, penderfynom fabwysiadu dull graddol sy'n golygu y bydd ein cyfeiriadau e-bost yn newid i'r cyfeiriad newydd yn ystod y flwyddyn nesaf. Byddwn hefyd yn diweddaru unrhyw ddeunyddiau sy'n cynnwys yr hen gyfeiriad wrth iddynt ddyddio.

Gobeithiwn y bydd ein penderfyniad beiddgar, ynghyd â'n dull graddol o'i weithredu, yn annog cyrff cyhoeddus eraill i fanteisio ar y datblygiad technolegol hwn sy'n sicr o godi proffil a phresenoldeb Cymru a'r Gymraeg ar-lein.

## Microwefan y Gymraeg

Daeth pwysigrwydd technoleg yn amlwg yn ystod cyfnod y pandemig COVID-19. Gan fod cyfleoedd i rannu deunyddiau hyrwyddo yn brin, teimlon fod dyletswydd arnom i wneud yn siŵr bod gwybodaeth gynhwysfawr am y Gymraeg ar gael ar-lein. Felly fe lansiom adran newydd ar ein gwefan. Mae ein microwefan, Y Gymraeg ar Ynys Môn, yn gyrchfan ddefnyddiol sy'n dwyn ynghyd ystod o wybodaeth ac adnoddau er mwyn:

- codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg yn ein hardal;
- cyfeirio dysgwyr at adnoddau i roi hwb i'w Cymraeg; ac
- dangos manteision defnyddio'r Gymraeg i fusnesau.




Gweithiom yn galed i wneud yn siŵr bod y safle'n apelgar, yn amlwg ar ein gwefan ac yn defnyddio iaith sy'n hawdd i'w deall. Mae'n cynnwys dolenni at wefannau allanol ac at rannau eraill o'n gwefan ni i greu llwybr di-dor i'r defnyddiwr. Ein nod yw meithrin ewyllys da tuag at yr iaith drwy rannu negeseuon cadarnhaol am y Gymraeg â phobl Môn.

# Safonau cyflenwi gwasanaethau

Mae'r grŵp yma o safonau'n ymwneud â'r ffordd yr ydym yn delio â phobl Môn. Mae 77 ohonynt i gyd wedi eu gosod arnom. Ymysg pethau eraill, maent yn ymhél â sut yr ydym yn delio â phobl dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, ein cyhoeddiadau â'n presenoldeb ar-lein.

## Rheoli perfformiad

### Hunan-arfarnu cydymffurfiaeth

Ein prif ffordd o wneud yn siŵr ein bod yn cwrdd â'r safonau yw hunan-arfarnu. Mae cydymffurfio â gofynion statudol a hunan reoleiddio wedi eu gosod yn nhargedau perfformiad blynyddol ein penaethiaid gwasanaeth. Bob blwyddyn mae penaethiaid yn sgorio perfformiad eu gwasanaethau ac yn cyfarfod â'r Rheolwr Polisi a'r Gymraeg i drafod y canlyniadau. Cynhaliom wyth cyfarfod eleni gyda phob pennaeth.

| Adnoddau | Adnoddau Dynol a Thrawsnewid | Busnes y Cyngor | Dysgu |
|---|---|---|---|
| • Archwilio a risg<br>• Cyllid<br>• Pwrcasu<br>• Refeniw a budd-daliadau | • Adnoddau dynol<br>• Technoleg gwybodaeth<br>• Trawsnewid corfforaethol | • Cyfreithiol<br>• Gwasanaethau democrataidd | • Addysg<br>• Amgueddfeydd, archifau a diwylliant |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | **Tai** |
| • Gwasanaethau ieuenctid<br>• Gwasanaethau oedolion<br>• Gwasanaethau plant | • Ailgylchu<br>• Cerbydau fflyd<br>• Rheoli gwastraff<br>• Rhwydwaith ffyrdd<br>• Tir, eiddo ac adeiladau | • Adfywio<br>• Cynllunio<br>• Cyrchfan<br>• Datblygu economaidd<br>• Gwarchod y cyhoedd<br>• Hamdden<br>• Ynys Ynni | • Cyfranogiad tenantiaid<br>• Cynnal a chadw a gosod tai<br>• Digartrefedd<br>• Ffoaduriaid<br>• Grant cymorth<br>• Hawliau lles a chynhwysiad ariannol<br>• Ôl-ddyledion |

Yn gyffredinol, cofnodwyd lefelau uchel o sicrwydd. Bron yn ddieithriad aseswyd perfformiad i fod naill ai ar lefel tri, sef cydymffurfiaeth rhwng 60%-100%, neu lefel pedwar, sef 100%. Y prif reswm am hyn oedd hyder y penaethiaid bod gwasanaethau wedi cynllunio mewn ffordd sy'n golygu bod siaradwyr Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg yn ôl y galw.

Roedd ambell fater yn creu consyrn fodd bynnag. Technoleg oedd un maes amlwg sy'n gallu creu problemau, yn enwedig os mai trydydd parti sy'n gyfrifol am ddatblygu gwasanaethau ar ein rhan. Gall diffyg ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fod yn ffactor sy'n golygu bod rhaid ymdrechu i wneud yn siŵr bod anghenion defnyddwyr yr iaith yn glir wrth ddatblygu opsiynau gyda thrydydd partïon.

### Arfer dda

Nodwyd esiamplau o arfer dda, gyda sawl gwasanaeth yn mynd ati’n rhagweithiol i reoli eu perfformiad eu hunain.

Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadw cofnod cynhwysfawr o ddewis iaith er mwyn paru siaradwyr Cymraeg gyda defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg

Swyddog Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnal arolwg siopwr cudd o wasanaethau ffôn

Cydgysylltydd safonau'r Gymraeg yr adain Gyllid yn gwneud yn siŵr bod llofnodion e-bost yn cynnwys y logo iaith gwaith



Lansio safle adnoddau Caru Iaith i gefnogi'r gweithlu addysg ac ysgolion

Pencampwyr Iaith Gymraeg y gwasanaeth Tai yn helpu prawf ddarllen gwaith eu cydweithwyr

## Gwirio uniongyrchol

### Arolygon cydymffurfiaeth

Oherwydd prinder capasiti dros dro yn y tîm Polisi a’r Gymraeg, ni wnaethom gynnal arolygon penodol i wirio ein cydymffurfiaeth gyda’r safonau eleni. Yn hytrach, fe ddibynnom ar ein rhwydwaith o gydgysylltwyr safonau’r Gymraeg a’n rheolwr busnes i wneud yn siŵr bod gwasanaethau’n cwrdd â’r gofynion. Chwaraeodd ein tîm Gwasanaethau Digidol rôl allweddol mewn sicrhau bod ein gwefannau a’n gwasanaethau ar-lein yn gweithredu’n llawn yn Gymraeg.

Yn dilyn archwilio’n gwefan cawsom wybod gan Gomisiynydd y Gymraeg bod angen i ni gymryd camau i wneud yn siŵr bod ein holl ddogfennau a’n ffurflenni Saesneg yn nodi’n glir eu bod hefyd ar gael yn Gymraeg.


## Deall profiadau defnyddwyr

### Data defnydd

Un dangosydd arwyddocaol o’r defnydd sy’n cael ei wneud o’n gwasanaethau Cymraeg yw nifer y bobl sy’n ymweld â’n prif wefan. Mae’r nifer sy’n defnyddio fersiwn Saesneg yn sylweddol uwch na’r nifer sy’n dewis defnyddio’r Gymraeg. Mae’r ffigwr ar gyfer tudalennau penodol yn dangos bod oddeutu 13% o’r holl ymweliadau i dudalennau Cymraeg.

| Gwefan Gymraeg | Gwefan Saesneg |
| --- | --- |
| 150,122 | 861,513 |

Mae 'ymweliad' yn golygu cyfres o geisiadau am wahanol dudalennau gan un defnyddiwr o fewn cyfnod o hanner awr. Ystyr 'edrych ar dudalennau' yw sawl gwaith y cafodd tudalen benodol ei gweld yn ystod y flwyddyn.




## Arolwg boddhad cyfieithu

Ym mis Mawrth 2022 estynnom allan at ein cynghorwyr i holi eu barn am ein gwasanaeth cyfieithu. Pwrpas anfon yr holiadur oedd ein helpu i fonitro perfformiad a gwella'r gwasanaeth. Roedd yr ymateb gadarnhaol:


"Byddaf yn aml yn gwrando ar farn y cyfeillion hynny sy'n derbyn cyfieithu ar y pryd, a braf yw gwrando ar eu sylwadau ... Hefyd fel un sydd yn aml yn darllen y ddwy fersiwn o adroddiadau, braf yw cael cyfieithiad sydd wedi ei ddarparu ar ffurf sydd wedi ei ysgrifennu mewn iaith sydd yn ddealladwy i bawb. Yn fyr, diolch i chi a'ch Tîm am ddarparu gwasanaeth arbennig i ni fel Cyngor."

"Mae gen i edmygedd mawr o'r modd yr ydych yn gwneud y Gymraeg yn gyfrwng hylaw ac ystwyth er mor gymhleth ac anghyfarwydd yn aml yw terminoleg llywodraeth."

Roedd awydd gan rai o'n cynghorwyr i wybod mwy am ddefnyddio adnoddau cymorth cyfieithu. Aethom ati i gylchredeg canllawiau ymarferol, yn cynnwys clipiau fideo, ar becynnau Cysill a Cysgeir sydd ar gael i'n cynghorwyr â'n holl swyddogion.


## Cwynion

Gwelsom gynnydd eleni yn nifer y cwynion am ein gwasanaethau Cymraeg. Er bod y ffigwr yn isel, roedd y cynnydd yn nodedig. Un rheswm posib dros y cynnydd yw newid yn ein ffordd o ddelio â chwynion am yr iaith.



Yn y gorffennol roedd cwynion yn cael eu datrys gan amlaf gan y gwasanaeth cyfrifol fel rhan o gam gyntaf ein gweithdrefn gwynion. Ers mis Gorffennaf 2021, caiff unrhyw gwynion sy’n ymwneud â’n defnydd o'r Gymraeg eu cyfeirio’n syth at y Rheolwr Polisi a’r Gymraeg i’w hystyried a’u cofnodi.

**Ffigwr: Cwynion safonau cyflenwi gwasanaethau yn ôl pwnc**




Arwyddion yn dangos testun Saesneg oedd pwnc dwy gŵyn. Yn y ddau achos, fe wnaethom ddarganfod mai sefydliadau eraill, ac nid y Cyngor, oedd yn gyfrifol am eu gosod. Wedi i ni ymyrryd cafodd yr arwyddion eu disodli gan rai dwyieithog.

Roedd cyfarch dros y ffôn ac wyneb yn wyneb yn ffactor mewn dwy gŵyn arall. Methodd swyddog hamdden gyfarch un achwynydd dros y ffôn yn Gymraeg a chafodd achwynydd arall ei groesawu’n Saesneg gan swyddog mewn un o’n canolfannau ailgylchu. Dangosodd ein hymchwiliad i’r achos cyntaf bod colli aelod profiadol o staff y dderbynfa wedi arwain at lithriad yn safon arferol y gwasanaeth ffôn. Trefnom hyfforddiant iaith Gymraeg i’r swyddog cyfrifol.

Mewn ymateb i’r ail achos, trefnodd reolwr y safle ailgylchu sesiwn ymwybyddiaeth iaith ar gyfer yr holl swyddogion. Cafodd y mater hefyd ei grybwyll yn ystod sgyrsiau datblygiad blynyddol y staff. Cysylltodd yr achwynydd â ni eto rai wythnosau ar ôl cwyno i ddweud ei bod wedi ymweld unwaith eto â’r ganolfan ailgylchu ac i ddiolch am y gwasanaeth cyfrwng Cymraeg gafodd yno.

Un o'n gwasanaethau ar-lein oedd yn gyfrifol am y gŵyn am ohebiaeth. Fel arfer, er mwyn defnyddio’r cyfleuster ‘Fy Nghyfrif’ ar ein gwefan mae disgwyl ichi greu cyfrif personol a nodi eich dewis iaith. Ond, gallwch hefyd gysylltu hefo ni drwy’r cyfleuster yn ddienw. Yn anffodus pan gysylltodd un unigolyn â ni yn y modd hwn cafodd ateb awtomatig oedd yn Saesneg.

O ganlyniad i'r gŵyn fe wnaethom gywiro'r dechnoleg sy'n golygu bod unrhyw un sy'n cysylltu â ni'n ddienw drwy 'Fy Nghyfrif' bellach yn derbyn negeseuon awtomatig sy'n ddwyieithog.

Er mwyn sicrhau ein bod yn adlewyrchu ar ac yn dysgu o gwynion am ein defnydd o'r Gymraeg, fe wnaethom baratoi adroddiad cydymffurfiaeth chwarterol i'w roi gerbron Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg. Yn ogystal â rhoi sylw i gwynion, ac unrhyw waith gorfodi gan Gomisiynydd y Gymraeg, mae'r adroddiad yn nodi'r ganmoliaeth sy'n ein cyrraedd o dro i dro am ein gwasanaethau Cymraeg. Mae'n nodedig bod y rhan fwyaf o'r ganmoliaeth yn perthyn i'n gwasanaethau ar gyfer rhai o'n trigolion fwyaf bregus, sef ein gwasanaeth cartrefi gofal.

"Mor ddiolchgar bod [defnyddiwr gwasanaeth] wedi cael cartref cartrefol Cymraeg."

"Diolch arbennig i'r genod i gyd, pob un ohonynt ar bob shift. Roedden i gyd yn hynod o garedig… Ers y dechrau roeddem yn sicr mai Garreglwyd oedd y lle gorau iddi… Mae diwylliant Cymreig yn hollol wahanol a ni fyddai Mam wedi bod yn setlo o gwbwl heb y Gymraeg, y miwsig a'r canu"

"Roedd yn rhaid i Mair* a minnau fynd i siarad â [defnyddiwr gwasanaeth]. Cymerodd Mair yr awenau yn y drafodaeth hon ac roedd y ffaith y gellid trafod y mater yn Gymraeg yn ganolog wrth i [ddefnyddiwr gwasanaeth] roi ei ymddiriedaeth ynom. Roeddwn i'n meddwl bod y ffordd yr eglurodd Mair y sefyllfa i'r teulu yn ardderchog. Gofalgar, clir a dealltwriaeth iawn."

* Enw wedi ei newid am resymau preifatrwydd.

Fel y llynedd, ni dderbyniom unrhyw gwynion trwy law, ac ni chynhaliwyd unrhyw ymchwiliadau statudol gan, Gomisiynydd y Gymraeg.

# Safonau llunio polisi

Dyma'r safonau sy'n ymwneud â'r ffordd yr ydym yn ystyried effaith ein penderfyniadau ar y Gymraeg a defnyddwyr yr iaith. Mae 10 ohonynt i gyd wedi eu gosod arnom ac maent yn golygu bod rhaid i ni:

- ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol ein penderfyniadau ar y Gymraeg;
- ystyried sut y gallwn gynyddu effeithiau cadarnhaol, lliniaru effeithiau negyddol a manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg; a
- holi barn ar yr effeithiau ar y Gymraeg wrth ymgysylltu neu ymgynghori.

## Rheoli perfformiad

### Asesu effaith

Ein prif ddull o reoli ein perfformiad mewn perthynas â'r safonau llunio polisi yw'r templed asesu effaith. Mae dau dempled ar gael ar ein mewnrwyd, ynghyd â chanllawiau ar eu llenwi. Mae'r cyntaf yn ystyried yr effaith ar gydraddoldeb â'r Gymraeg. Mae'r ail yn ystyried yr effaith ar y Gymraeg yn unig. Defnyddiwn y templed hwn os yw'r cynnig yn cael effaith neilltuol neu sylweddol ar yr iaith.

2021-22
70
Blaen adroddiad

Rhaid i'n swyddogion gwblhau'r templedi hyn wrth argymell datblygu, adolygu neu ddiwygio polisïau. Am y rheswm hwn mae pob blaen adroddiad sy'n mynd gerbron ein prif bwyllgorau – y pwyllgorau sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith – yn holi os oes asesiad effaith wedi ei gwblhau. Roedd 70 o'r adroddiadau aeth o flaen y Pwyllgor Gwaith yn cyfeirio at effaith y cynigion dan sylw ar gydraddoldeb a'r Gymraeg.

Roedd tîm Polisi a'r Gymraeg wrth law i gynghori swyddogion ar sut i fynd ati i lenwi'r templedi ac asesu'r effaith ar yr iaith. Mae gennym hefyd ganllawiau ar ein mewnrwyd ar gwrdd â gofynion y safonau wrth ymgynghori, comisiynu ymchwil a dyfarnu grantiau.

## Deall profiadau defnyddwyr

| 2020-21 | | 2021-22 |
|---|---|---|
| 0 | ↑ | 4 |
| Nifer y cwynion | | Nifer y cwynion |

### Cwynion

Derbynion bedair cwyn eleni oedd yn ymwneud â'r safonau llunio polisi. Fel yn achos y cwynion am y safonau cyflenwi gwasanaethau, er bod y nifer yn isel, mae'n gynnydd o gymharu â llynedd.

Roedd tuedd benodol i'r cwynion hyn. Roedd tair ohonynt am enwau di-Gymraeg ar dai ac eiddo ac felly'n ymwneud â'n polisi ar enwi a rhifo strydoedd a thai. Mae ein polisi'n gwneud yn glir bod polisi cynllunio cenedlaethol yn cyfyngu ein gallu i weithredu yn y maes hwn ac mai annog defnyddio enwau Cymraeg ar dai yn unig y gallwn wneud. Nid oedd felly'n bosib i ni gymryd camau pellach i'w datrys.

Roedd y bedwaredd gŵyn yn ymwneud ag ymgynghoriad ar ein strategaeth dai newydd. Roedd yr achwynydd yn bryderus nad oeddem wedi ceisio barn am effaith y strategaeth ar y Gymraeg. Dangosodd ein hymchwiliad bod sail i bryderon yr

achwynydd ac fe aethom ati ar unwaith i atal yr ymgynghoriad. Gyda chymorth y Rheolwr Polisi a'r Gymraeg, gweithiodd swyddogion y gwasanaeth i sicrhau bod yr ymgynghoriad yn cwrdd â gofynion y safonau. Roedd hyn yn golygu ychwanegu cwestiwn am effaith y strategaeth ar y Gymraeg i'r cwestiynau ymgynghori ac ail gynnal yr ymarferiad er mwyn sicrhau cyfle teg i ymateb.

Adlewyrchom ar yr hyn aeth o'i le ac fe gymerom y camau canlynol i sicrhau bod yr un peth ddim yn digwydd eto:

- Atgoffa swyddogion o'r gofynion a chylchredeg yr rhestr wirio ar gyfer cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus.
- Casglu manylion strategaethau a dogfennau nodedig i'w cyhoeddi a gwneud yn siŵr bod yr awduron yn deall y gofynion wrth ymgynghori.
- Tynnu sylw at y gŵyn a'r hyn aeth o'i le gyda phenaethiaid gwasanaeth yn ystod cyfarfodydd hunan-arfarnu.
- Sicrhau bod swyddogion y wefan yn archwilio dogfennau ymgynghori cyn eu cyhoeddi.

# Safonau gweithredu

Dyma’r safonau sy’n ymwneud â’n defnydd mewnol o'r Gymraeg. Mae 47 ohonynt i gyd. Maent yn gosod disgwyliad arnom i annog defnyddio’r Gymraeg yn ein gweinyddiaeth ac i gefnogi ein swyddogion a’n cynghorwyr i ddefnyddio’r iaith wrth eu gwaith.

## Rheoli perfformiad

### Hunan reoleiddio

Pwrpas ein Porth Polisi yw sicrhau bod ein swyddogion yn deall ac yn cael eu hatgoffa o’r gofynion sydd wedi eu gosod arnom. Mae gofynion y safonau a’n polisi iaith Gymraeg yn cael eu cyflwyno i swyddogion bob dwy flynedd i’w hadolygu a chaiff dealltwriaeth o’r gofynion ei brofi drwy holiadur byr.

**Porth Polisi**
**98%**

Eleni am y tro cyntaf cafodd rheolwyr perthnasol eu hatgoffa o’n canllawiau ar ddynodi sgiliau iaith swyddi. Cwblhaodd 98% o’r rheolwyr y broses.

### Arfer dda

Dechreuom ymgyrch newydd eleni i geisio annog ein swyddogion i wneud newidiadau bach i gynyddu eu defnydd o’r Gymraeg yn eu gwaith. Mae her Gymraeg y mis yn annog swyddogion i wneud pethau fel:

- defnyddio cefndir cyfarfod rithiol neu lofnod e-bost sy’n cynnwys y logo iaith gwaith;
- newid rhyngwyneb eu dyfeisiadau gwaith i’r Gymraeg;
- cyfarch eraill yn Gymraeg yn anffurfiol ar ddechrau cyfarfodydd.

Fe wnaethom barhau i gefnogi ein rhwydwaith o gydgysylltwyr safonau’r Gymraeg a’n pencampwyr iaith Gymraeg. Mae’r unigolion brwdfrydig yma’n gweithio’n wirfoddol i godi ymwybyddiaeth o ofynion y safonau ac i annog defnydd o’r iaith o fewn eu timoedd. Cafodd ein pencampwyr iaith eu hadnabod yn ôl yn 2016 fel rhan o'n rhaglen dreigl arloesol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn ein gweinyddiaeth. Hyd yma mae’r rhaglen wedi canolbwyntio ar newid diwylliant o fewn tri tîm penodol, sef:

- Hamdden
- Gwarchod y Cyhoedd
- Tai

Er bod momentwm y gwaith wedi arafu oherwydd y pandemig COVID-19, fe wnaethom gymryd camau i ymestyn y rhaglen i dimoedd newydd ac adnabod pencampwyr iaith ychwanegol. Dechreuom gyd-weithio â Phrifysgol Bangor i drafod peilota ei fethodoleg newid ymddygiad ARFer. Bwriad ARFer yw newid arferion iaith i alluogi cydweithwyr sydd yn gallu siarad Cymraeg (ond sydd wedi sefydlu arferiad o ddefnyddio Saesneg) i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith.

## Gwirio uniongyrchol

### Arolygon cydymffurfiaeth

Yn dilyn archwilio’n gwefan swyddi cawsom wybod gan Gomisiynydd y Gymraeg bod angen i ni gymryd camau i wneud yn siŵr bod ymgeiswyr yn deall bod croeso iddynt gyflwyno eu ceisiadau’n Gymraeg. Aethom ati ar unwaith sicrhau bod pob hysbyseb swydd yn nodi’n glir:

- Mae croeso i chi gyflwyno cais yn eich dewis iaith. Bydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg neu'n Saesneg bob amser yn cael eu trin yn gyfartal.

## Deall profiadau defnyddwyr

### Data hyfforddiant

Manteisiodd lai o swyddogion ar gyrsiau dysgu Cymraeg eleni. Er bod mwy o ddiddordeb yn ein cwrs dwys rhithiol gan Dysgu Cymraeg, roedd llai o ddiddordeb yn ein cyrsiau wythnosol.

| 2020-21 | | 2021-22 |
|---|---|---|
| 19 | ↓ | 15 |
| Cyrsiau dysgu Cymraeg | | Cyrsiau dysgu Cymraeg |

Roedd pecynnau e-ddysgu sylfaenol ‘Croeso Cymraeg’ a ‘Gwella Cymorth Cymraeg’ ar gael i’n holl staff ac fe fanteisiodd dau aelod ar y cyfle i ddysgu Cymraeg ar gwrs preswyl yn Nant Gwrtheyrn. Mynychodd chwe swyddog gwrs gloywi iaith deuddydd i roi sglein ar eu sgiliau darllen ac ysgrifennu.

Derbyniodd 31 aelod newydd o staff hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a’r safonau fel rhan o’u rhaglenni anwytho.

### Cwynion

Ni dderbynion unrhyw gwynion eleni yn ymwneud â gofynion y safonau gweithredu.

# Edrych ymlaen

Rydym yn ffodus bod mwyafrif helaeth ein swyddogion yn siarad Cymraeg. Golyga hyn y gallwn gynllunio ein gweithlu mewn ffordd sy'n sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn Gymraeg yn rhagweithiol a diofyn. Yr her fawr i ni yw gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau Cymraeg yn hygyrch ac yn apelgar fel y gall pobl Môn eu defnyddio'n hyderus.

Byddwn yn comisiynu gwaith ymchwil ar y cyd gyda sefydliadau cyhoeddus eraill y rhanbarth i ddeall beth sy'n hybu defnyddwyr ein derbynfeydd i ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym yn gobeithio y bydd yr ymchwil pwysig hwn yn helpu ein swyddogion i annog mwy o ddefnydd wyneb yn wyneb o'r Gymraeg.

Byddwn hefyd yn ymateb i alwad gan Gomisiynydd y Gymraeg i wneud yn siŵr bod ein holl ddogfennau a'n ffurflenni Saesneg yn ei gwneud yn glir eu bod hefyd ar gael yn Gymraeg.

## Datblygu gwasanaethau newydd

Mae sawl datblygiad cyffrous ar y gweill ar gyfer 2022/23 sy'n cynnig cyfle i ni gynyddu ein defnydd o'r Gymraeg drwy dechnoleg, yn cynnwys:



Sicrhau bod gan bob un o'n swyddogion a'n cynghorwyr gyfeiriad e-bost cyfan gwbl Gymraeg @ynysmon.llyw.cymru



Creu sianel gysylltu newydd i'n trigolion trwy lansio ein sgwrsfot dwyieithog 'Mona'



Uwchraddio ein hoffer cyfieithu ar y pryd er mwyn cynnal a gweddarlledu cyfarfodydd hybrid yn siambr ac ystafell bwyllgor y Cyngor



Creu mwy o gynnwys ar ein mewnrwyd newydd MonITor i helpu swyddogion a cynghorwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith

Peilota methodoleg newid ymddygiad i gynyddu hyder timau i ddefnyddio'r Gymraeg

## Casgliad

Er i gyfnod y pandemig COVID-19 barhau i'n herio, ni effeithiodd ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg o safon i bobl Môn eto eleni. Er inni dderbyn mwy o gwynion eleni, ar y cyfan nid oeddent yn awgrymu unrhyw fethiant systematig i fodloni gofynion y safonau.

Fodd bynnag, mae gennym bob amser le i wella a datblygu, yn enwedig o safbwynt ein defnydd mewnol o'r iaith.

Effeithiodd newidiadau i'n harferion gwaith ar fomentwm ein rhaglen dreigl i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn ein gweinyddiaeth. Mae'n allweddol ein bod yn manteisio ar ddatblygiadau mewn technoleg i wneud yn siŵr bod ein cynlluniau i ailafael yn y cynllun yn addas ar gyfer bywyd gwaith wedi'r pandemig. Mae hyn yn cynnwys cynnig ystod o adnoddau addas ac ymarferol i helpu ein swyddogion a'n cynghorwyr i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg.

Mae'n bwysig ein bod yn rhoi cefnogaeth arbennig i'n cydweithwyr sy'n awyddus i roi hwb i'w Cymraeg. Mae gennym ddyletswydd i greu awyrgylch gynhwysol a chroesawgar sy'n caniatáu cwrteisi a phob chwarae teg cyfle iddynt ddatblygu ac ymarfer eu sgiliau yn hyderus yn eu bywyd gwaith.

# Atodiad 1: Data cwynion

Dyma fanylion y cwynion gafodd eu gwneud i ni dros y flwyddyn am ein defnydd o'r Gymraeg. Mae'r ddau dabl cyntaf yn cynnwys manylion cwynion sy'n cwrdd â diffiniad ein gweithdrefn gwynion, sef cwynion gan bobl a effeithiwyd yn uniongyrchol gan yr amgylchiadau.

Mae'r trydydd tabl yn cynnwys manylion cwynion 'eraill' neu sylwadau gan bobl yn nodi consyrn ond na effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol. Mae hefyd yn cynnwys cwynion sy'n ymwneud â'n defnydd o'r Gymraeg ond nad ydynt yn creu amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â'r safonau.

**Tabl 1: Cwynion yn ôl dosbarth o safonau**

| Dosbarth safonau | Nifer |
|---|---|
| Cyflenwi gwasanaethau | 5 |
| Llunio polisi | 4 |
| Gweithredu | 0 |
| **Cyfanswm** | **9** |

**Tabl 2: Manylion cwynion**

| Cwyn | Dosbarth safonau | Manylion |
|---|---|---|
| 2012/22-01 | Cyflenwi gwasanaethau | Diffyg defnydd o'r Gymraeg ar arwydd newydd ar ddyfais achub bywyd ym mhorthladd Amlwch. |
| 2012/22-02 | Cyflenwi gwasanaethau | Methiant i ddelio'n Gymraeg â galwad ffôn i ganolfan hamdden Amlwch. |
| 2012/22-03 | Llunio polisi | Defnydd honedig o enw di-Gymraeg ar eiddo'r Cyngor. |
| 2012/22-04 | Llunio polisi | Defnydd honedig o enw di-Gymraeg ar eiddo preifat yn groes i bolisi'r Cyngor ar enwi a rhifo strydoedd a thai. |
| 2012/22-05 | Llunio polisi | Defnydd honedig o enw di-Gymraeg ar ddatblygiad arfaethedig. |
| 2012/22-06 | Cyflenwi gwasanaethau | Methiant i gyfarch defnyddiwr gwasanaeth yn Gymraeg yng nghanolfan ailgylchu Gwalchmai. |
| 2012/22-07 | Cyflenwi gwasanaethau | Methiant i gydnabod derbyn cais ar lein am docyn bws ysgol yn Gymraeg. |
| 2012/22-08 | Llunio polisi | Diffyg ystyriaeth o ofynion safonau llunio polisi fel rhan o ymgynghoriad ar strategaeth dai newydd. |

| | | |
|---|---|---|
| 2012/22-09 | Cyflenwi gwasanaethau | Diffyg defnydd o'r Gymraeg ar arwydd yn ymwneud â phartneriaeth yn cynnwys y Cyngor. |

**Tabl 3: Cwynion eraill**

| Rhif | Sylw |
|---|---|
| 1 | Mynegi siom ynglŷn â diffyg cyfleoedd cyflogaeth honedig i bartneriaid personél RAF y Fali sy'n ddi-Gymraeg. |
| 2 | Sylw yn cwestiynu'r angen am sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer swydd benodol ac yn honni bod gofynion y fanyleb person yn camwahaniaethu yn erbyn pobl di-Gymraeg. |
| 3 | Diffyg defnydd honedig o'r Gymraeg gan hyfforddwyr dosbarthiadau ffitrwydd yng nghanolfan hamdden Amlwch. |

# Atodiad 2: Data cyflogaeth, hyfforddiant a recriwtio

Dyma wybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg ein swyddogion. Rydym wedi categoreiddio'r wybodaeth i gyd-fynd â diffiniadau ein fframwaith sgiliau iaith sy'n pennu gwahanol lefel o allu yn y Gymraeg:

## Lefel 0: Ymwybyddiaeth

- Dim sgiliau

## Lefel 1: Mynediad

- Yn gallu sgwrsio'n gyffredinol (cyfarchion, enwau, dywediadau, enwau lleoedd)
- Yn gallu deall ymholiadau sylfaenol
- Yn gallu darllen geiriau ac ymadroddion sylfaenol, fel arwyddion neu nodiadau byr a syml
- Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol

## Lefel 2: Sylfaen

- Yn gallu ateb ymholiadau syml sy'n ymwneud â'r gwaith
- Yn gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol
- Yn gallu darllen deunydd syml sy'n ymwneud â'r gwaith (yn araf)
- Yn gallu ateb gohebiaeth syml gyda chymorth

## Lefel 3: Canolradd

- Yn gallu cynnal sgwrs â rhywun arall, gyda pheth petruster, am faterion gwaith arferol
- Yn gallu dilyn sgyrsiau arferol sy'n ymwneud â'r gwaith rhwng siaradwyr Cymraeg rhugl
- Yn gallu darllen deunydd arferol gyda geiriadur
- Yn gallu drafftio testun arferol, gyda chymorth golygyddol

## Lefel 4: Uwch


- Yn gallu siarad yr iaith yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gyda rhai geiriau Saesneg
- Yn gallu dilyn y rhan fwyaf o sgyrsiau sy'n ymwneud â'r gwaith gan gynnwys trafodaethau grŵp
- Yn gallu darllen y mwyafrif o ddeunydd yn eich maes eich hun
- Yn gallu paratoi'r rhan fwyaf o'r deunydd ysgrifenedig sy'n gysylltiedig â'r maes, gyda pheth cymorth gwirio

## Lefel 5: Medrus

- Yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau, am gyfnod estynedig pan fo angen
- Yn gallu deall pob sgwrs sy'n ymwneud â'r gwaith
- Yn gallu deall yr holl ddeunydd sy'n ymwneud â'r gwaith
- yn medru cwblhau gwaith ysgrifennu cymhleth heb yr angen i wirio

## Sgiliau Cymraeg fesul gwasanaeth

Newid bychan yn unig sydd yn y ffigyrau yma o gymharu â'r llynedd. Mae'n ymddangos bod rhai gwasanaethau wedi gweld cynnydd yn sgiliau iaith Gymraeg eu swyddogion, tra bod eraill wedi gostwng ychydig (tua 1% yn llai). Un ffactor all fod wedi dylanwadu ar y newid bach hwn yw trosiant staff yn dilyn y pandemig COVID-19. Mae hefyd yn bwysig nodi bod gan lawer o'r gwasanaethau fwy o swyddogion eleni o gymharu â'r llynedd.




**Swyddfa'r Prif Weithredwr**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 7
Nifer y dychweliadau: 7
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7 |
| Canran | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% |

**Adnoddau**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 96
Nifer y dychweliadau: 96
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 1 | 5 | 4 | 7 | 6 | 73 |
| Canran | 1% | 5% | 4% | 7% | 6% | 76% |

**Adnoddau Dynol a Thrawsnewid**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 80
Nifer y dychweliadau: 80
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 5 | 3 | 3 | 2 | 13 | 54 |
| Canran | 6% | 4% | 4% | 3% | 16% | 68% |

**Busnes y Cyngor**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 32
Nifer y dychweliadau: 32
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 29 |
| Canran | 0% | 3% | 0% | 3% | 3% | 91% |

**Dysgu**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 80
Nifer y dychweliadau: 80
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | 2 | 2 | 5 | 9 | 62 |
| Canran | 0% | 3% | 3% | 6% | 11% | 78% |

**Gwasanaethau Cymdeithasol**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 660
Nifer y dychweliadau: 660
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 27 | 47 | 45 | 32 | 109 | 397 |
| Canran | 4% | 7% | 6% | 5% | 17% | 60% |

**Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 296
Nifer y dychweliadau: 296
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 15 | 29 | 17 | 9 | 28 | 198 |
| Canran | 5% | 10% | 6% | 3% | 9% | 67% |

**Rheoleiddio a Datblygu Economaidd**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 262
Nifer y dychweliadau: 262
Canran dychweliadau: 100%


| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 4 | 21 | 14 | 21 | 41 | 161 |
| Canran | 2% | 8% | 5% | 8% | 16% | 61% |

**Tai**
Nifer swyddogion yn y gwasanaeth: 162
Nifer y dychweliadau: 162
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 3 | 5 | 7 | 9 | 21 | 117 |
| Canran | 2% | 3% | 4% | 6% | 13% | 72% |

## Sgiliau Cymraeg fesul gradd gyflog

Mae lefelau sgiliau iaith Gymraeg swyddogion ar raddfa gyflog 1- 5 a phrif swyddogion yn parhau'n gyson, gyda'r mwyafrif â sgiliau lefel pump. Mae newid cadarnhaol i weld yn raddfa 6 -10 lle mae 5% â sgiliau iaith Gymraeg ar lefel 5 o gymharu â llynedd.




**Graddau 1-5**
Nifer y gweithwyr yn y raddfa: 1614
Nifer y dychweliadau: 1614
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 68 | 127 | 101 | 92 | 237 | 989 |
| Canran | 4% | 8% | 6% | 6% | 15% | 61% |

**Graddau 6-10**
Nifer y gweithwyr yn y raddfa: 405
Nifer y dychweliadau: 405
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 8 | 20 | 18 | 12 | 63 | 284 |
| Canran | 2% | 5% | 4% | 3% | 16% | 70% |

**Prif swyddogion**
Nifer y gweithwyr yn y raddfa: 14
Nifer y dychweliadau: 14
Canran dychweliadau: 100%

| Lefel | L0 | L1 | L2 | L3 | L4 | L5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 12 |
| Canran | 0% | 0% | 0% | 7% | 7% | 86% |

## Hyfforddiant

### Hyfforddiant sgiliau iaith Gymraeg

Dyma fanylion y niferoedd a dderbyniodd hyfforddiant i hybu neu ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn.

| Cymhwyster | Nifer |
|---|---|
| Mynediad | 5 |
| Sylfaen | 2 |
| Canolradd | 2 |
| Lefel uwch | 5 |
| Gloywi | 1 |
| **Cyfanswm** | 15 |

### Iaith cyrsiau hyfforddi

Ers y pandemig COVID-19, mae'r rhan fwyaf o'n sesiynau hyfforddiant staff wedi bod yn rhithiol. Rydym yn parhau i gynnig y sesiynau rhithiol yma, gyda rhai cyrsiau, fel iechyd a diogelwch yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb. Beth bynnag yw fformat y sesiwn, rydym yn parhau i gynnig dewis iaith i'n swyddogion.

Ein nod yw dynodi a cadw cofnod o gyfrwng iaith pob un o'n sesiynau hyfforddi mewnol. Mae'n bwysig nodi nad yw dewisiadau cofnodi ein system Adnoddau Dynol yn ddelfrydol ar gyfer casglu data o'r fath – er mae addasiadau trwy law yn digwydd i sicrhau fod y data mor gyfredol â phosib – wrth ystyried y ffigyrau isod.

O ran y cyrsiau a ddynodir fel rhai 'dwyieithog', gall hyn olygu fod un ai'r hyfforddwr yn gallu cyflwyno'r sesiwn yn ddwyieithog neu fod darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. Yn hynny o beth mae'n golygu fod swyddogion yn gallu holi/ateb cwestiynau yn eu dewis iaith.

| | Nifer / canran |
|---|---|
| Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigwyd gennym yn Gymraeg | 195 |
| Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigwyd gennym yn ddwyieithog | 711 |
| Canran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg | 25% |

Lle mae cyrsiau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae'n amlwg bod y nifer sy'n manteisio ar y cyrsiau Cymraeg yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol. Gall hyn fod

oherwydd bod llawer o'r cyrsiau hyfforddi a gynigwyd gennym yn ystod cyfnod y pandemig COVID-19 yn rai gorfodol, gyda chyrsiau statudol fel diogelu data yn cael eu blaenoriaethu. Felly, gyda llai o gyrsiau ar gael eleni, efallai fod hyn wedi gostwng lefel y nifer sy'n manteisio ar gyrsiau cyfrwng Cymraeg. Gall natur ddigidol yr hyfforddiant, a newid sydyn yr amgylchedd dysgu hefyd fod yn ffactorau.

## Categoreiddio swyddi

Yn 2019 cyhoeddom ganllawiau yn gosod allan lefel isafswm o sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer gwahanol fathau o swyddi. Mae'r canllawiau wedi llwyddo i osod disgwyliadau clir ar reolwyr ac ymgeiswyr fel ei gilydd. Nid ydym bellach yn categoreiddio swyddi fel rhai lle mae gallu yn y Gymraeg yn 'hanfodol' neu'n 'ddymunol'. Yn hytrach, mae elfen o sgiliau yn y Gymraeg yn perthyn i bob swydd sy'n gymesur â natur y rôl.

Dyma fanylion y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennym yn ystod y flwyddyn yn ôl eu gofynion sgiliau iaith Gymraeg. Roedd angen sgiliau iaith Gymraeg lefel tri ac uwch ar gyfer y rhan fwyaf o'r swyddi.

| | Nifer |
|---|---|
| Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 1 | 31 |
| Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 2 | 42 |
| Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 3 | 239 |
| Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 4 | 75 |
| Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 5 | 209 |
| Swyddi lle bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd | 4 |
| Swyddi lle nad oedd angen unrhyw sgiliau yn y Gymraeg | 0 |

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol**<br>**Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **20 a 21 Mehefin, 2022** |
| **Pwnc:** | **Aelodau Sgriwtini ar Banelau** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Enwebu Aelodau Sgriwtini i wasanaethu ar Banelau** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Robert Llewelyn Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol**<br>**Cyng Dylan Rees, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | • **Cyng Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor**<br>• **Cyng Ieuan Williams, Deilydd Portffolio Addysg a'r Iaith Gymraeg**<br>• **Cyng Robin Williams, Deilydd Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer**<br>• **Cyng Alun Roberts, Deilydd Portffolio Gwasanaethau Oedolion (Gwasanaethau Cymdeithasol)**<br>• **Cyng Gary Pritchard, Deilydd Portffolio Plant (Gwasanaethau Cymdeithasol) a Gwasanaethau Ieuenctid** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Ddim yn berthnasol** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

**A1 Aelodaeth Paneli**

Gofynnir i'r **ddau Bwyllogr Sgriwtini** enwebu:

- 4 Aelod i wasanaethu ar y **Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol / Rhiantu Corfforaethol**
- 3 Aelod i wasanaethu ar y **Panel Sgriwtini Cyllid**
- 4 Aelod i wasanaethu ar y **Panel Sgriwtini Addysg**

**A2 Trefniadau Adrodd**

Nodi'r trefniadau adrodd fel y cânt eu hamlinellu yn rhan 3 isod.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**


**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Ddim yn berthnasol.

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cyd-destun**
   - **1.1** Bydd Aelodau'n gwybod bod nifer o banelau wedi'u sefydlu a bod angen cynrychiolaeth o blith yr Aelodau Sgriwtini arnynt.
   - **1.2** Mae'r cylch gorchwyl neu'r dogfennau sgopio sy'n berthnasol i bob panel ynghlwm (fel y rhestrir yn Rhan 8 yr adroddiad hwn) er mwyn cynorthwyo'r Aelodau yn y broses dewis
   - **1.3** Dylai Aelodau hefyd fod yn ymwybodol nid yw'r rheolau sy'n ymwneud â Chyd-bwysedd Gwleidyddol yn berthnasol i aelodaeth y panelau hyn.

2. **Trafodaeth**
   - **2.1** Mae Pwyllgorau Sgriwtini yn rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yng Nghymru yn gweithredu. Eu prif bwrpas ydy dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, gyrru gwelliannau, gweithredu fel llais y gymuned a chwarae rhan yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu polisïau.
   - **2.2** Mae ein strwythur lleol yn cynnwys 2 bwyllgor sgriwtini a thri o banelau:




**2.3** Mae'r panelau sgriwtini wedi'u sefydlu er mwyn cwblhau ffrydau gwaith ar ran y rhiant bwyllgorau sgriwtini ac maent yn grwpiau gweithredol heb yr hawl i wneud penderfyniadau.

**2.4** Mae gweithrediad y panelau hyn wedi cael eu sefydlu'n gadarn drwy:

- Sefydlu trefniadau llywodraethiant cadarn i gefnogi pob panel
- Sicrhau ffocws / cylch gorchwyl a rhaglen waith clir ar gyfer y panelau
- Sefydlu proses adrodd / uchafu er mwyn sicrhau yr adroddir ar waith y panelau sgriwtini yn amserol i'r ddau Riant Bwyllgor
- Sicrhau'r cyflymder priodol ar waith y panelau sy'n cydymffurfio â blaenoriaethau corfforaethol a hefyd craffu manwl ar bynciau hollbwysig i'r Cyngor.

**3. Trefniadau Adrodd**

Mae'n bwysig sefydlu trefniadau adrodd clir rhwng y panelau a'r pwyllgorau sgriwtini perthnasol. Felly, mae'r trefniadau canlynol ar waith:

**3.1 Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol** – adrodd rheolaidd pob chwe mis fel eitem sefydlog ar raglen y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
**3.2 Panel Sgriwtini Cyllid** – adrodd rheolaidd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol mewn modd sy'n adlewyrchu'r amserlenni allweddol yn y broses gyllidebol
**3.3 Panel Sgriwtini Addysg** – adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio gan sicrhau aliniad gyda'r broses archwilio reoleiddio.

| |
|---|
| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Ddim yn berthnasol i'r mater cyffredinol hwn |

| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
|---|
| Ddim yn berthnasol i'r mater cyffredinol hwn |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Ddim yn berthnasol i'r mater cyffredinol hwn |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Ddim yn berthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| **Atodiad 1:** Sgôp a chylch gorchwyl y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol / Panel Rhiantu Corfforaethol<br>**Atodiad 2:** Sgôp a chylch gorchwyl y Panel Sgriwtini Cyllid<br>**Atodiad 3:** Sgôp a chylch gorchwyl y Panel Sgriwtini Addysg |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn.  LL77 7TW. |

**CYLCH GORCHWYL A *MODUS OPERANDI***

**PANEL SGRIWTINI GWASANAETHAU CYMDEITHASOL / PANEL RHIANTU CORFFORAETHOL**

## RHAN I – CEFNDIR A CHYD-DESTUN

### Craffu ar y Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae cadw plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed yn ddiogel yn rôl hanfodol bwysig ac yn un sy'n gofyn i'r Cyngor a phartneriaid weithio'n effeithiol efo'i gilydd. Cafwyd sylw cyhoeddus sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd enghreifftiau proffil uchel cenedlaethol lle mae'r system wedi methu unigolion bregus, gyda chanlyniadau trychinebus.

Wrth adrodd ar ganlyniadau arolwg gwael, mae'r Arolygaethau[1] yn y maes gofal yn aml yn dyfynnu arfer craffu gwael ochr yn ochr â methiannau yn agweddau eraill y system. Mae sicrhau craffu ystyrlon a chadarn o'r polisïau a'r gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd ar gael i warchod plant a phobl ifanc bregus felly'n elfen allweddol o rôl arweinyddol yr aelodau Sgriwtini.

Mae sicrhau craffu ystyrlon a chadarn o'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn elfen allweddol o rôl arweinyddiaeth Aelodau Sgriwtini ac yn llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn unig. Mae'n golygu sicrhau bod proses sgriwtini briodol yn rhan o'r gwaith cynllunio, gweithredu a gwaith dilynol ar benderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar unigolion bregus yn ein cymunedau lleol neu yn y system ofal. Felly, gall craffu effeithiol:

- Herio'n effeithiol
- Dal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau cadarn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Rhiantu Corfforaethol

Mae rôl a chyfrifoldebau Rhiantu Corfforaethol yr Awdurdod Lleol wedi'u diffinio mewn statud[2] ac yn berthnasol i Aelodau Etholedig, swyddogion ac asiantaethau partner. Fel rhieni corfforaethol, dylai pob Aelod geisio cael y wybodaeth ddiweddaraf am blant yng ngofal y Cyngor a'r rhai sy'n gadael gofal ac mae'r Panel Rhiantu Corfforaethol yn fforwm pwysig ar gyfer trafodaeth fanwl a rheolaidd ar faterion allweddol.

### Ein Trefniadau Lleol

Mae craffu ar y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi esblygu a datblygu ers sefydlu'r[3] Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd rôl y Panel yn canolbwyntio ar fonitro a chraffu ar gynnydd a'r pellter a deithiwyd yn erbyn rhaglen wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol a pherfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol; rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar gynnydd digonol ac amserol / perfformiad lleol. Mae'r gwaith craffu a wnaed gan y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol yn ystod y Weinyddiaeth ddiwethaf wedi bod yn ddatblygiad cadarnhaol, gan gael effaith ar berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol a'r daith wella:

---

[1] Arolygiaeth Gofal Cymru; Comisiwn Ansawdd Gofal (Lloegr)

[2] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015

[3] Sefydlwyd Panel Gwella Gwasanaethau Plant ym mis Mehefin, 2017 ac ehangwyd ei sgôp i gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion ym mis Mehefin, 2019.

- Datblygu model yn ffocysu ar grŵp llai o aelodau
- Aelodau'n datblygu lefel o arbenigedd
- Annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm

**Cyfrifoldebau Rhiantu Corfforaethol**
Yn sgil adroddiad[4] Archwilio Mewnol ar drefniadau rhiantu corfforaethol yr Awdurdod, mae'n amserol adolygu'r cylch gorchwyl a'r trefniadau llywodraethu sy'n cefnogi'r Panel Rhiantu Corfforaethol er mwyn cyd-fynd â Phanel Sgriwtini'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r ddogfen hon felly yn anelu at ymgorffori'r materion a ganlyn:

i. Cylch gorchwyl diwygiedig
ii. Fframwaith llywodraethu ac ysgrifenyddiaeth i gefnogi'r Panel i gynnwys – blaen raglen waith ffurfiol, adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Gwaith, adroddiadau sy'n amlinellu materion allweddol i Aelodau eu hystyried ac unrhyw argymhellion.

## RHAN II – CYLCH GWAITH A CHWMPAS Y PANEL

**CYLCH GWAITH**
Mae'n **gam naturiol nesaf** i ddatblygu gwaith sgriwtini Aelodau ymhellach ar y Gwasanaethau Cymdeithasol gan sicrhau cwmpas ehangach i'w gwaith, gyda'r manteision allweddol a ganlyn:

- Datblygu model o weithio yn y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar grŵp llai i alluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, i ddatblygu lefel o arbenigedd pwnc ac i annog presenoldeb da a gwaith tîm
- Cryfhau gallu Aelodau i herio perfformiad ymhellach drwy wella ansawdd gwybodaeth a data am ysgolion
- Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau Gwasanaeth fel sail i lywio rhaglen waith i'r dyfodol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Fforwm i ddatblygu grŵp o Aelodau gyda'r arbenigedd a pherchnogaeth i arwain trafodaethau ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

| |
|---|
| **Yr hyn mae'r Arolygiaeth Gofal yn disgwyl ei weld o ran arweinyddiaeth wlediyddol:**<br><br>Mae gan Aelodau Etholedig wybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o arfer a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'r effeithiol. |

Rôl y Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol fydd:

1. Monitro a chraffu mewn modd ystyrlon a chadarn ar:
    - Gynnydd a'r pellter a deithwyd yn erbyn rhaglenni datblygu'r Gwasanaeth
    - Berfformiad meintiol ac ansoddol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

[4] Panel Rhiantu Corfforaethol: Adroddiad Archwilio Mewnol dyddiedig Ionawr, 2021

2. Sicrhau bod llais plant, pobl ifanc ac oedolion yn cael ei glywed wrth ystyried effeithiolrwydd ac effaith gwasanaethau

3. Cyflawni cyfrifoldebau'r cyn Banel Rhiantu Corfforaethol (**Atodiad 1**)

4. Cynnig sicrwydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar yr elfennau canlynol:
   - Cynnydd digonol ac amserol wrth wireddu rhaglenni datblygu'r Gwasanaeth
   - Perfformiad meintiol ac ansoddol y gefnogaeth a'r gwasanaethau gofal ar gael i blant, pobl ifanc ac oedolion
   - Digonolrwydd ein cyfrifoldebau rhiantu corfforaethol.

**CWMPAS**

| Pwnc | Ffocws Rhaglen Waith | Amserlen |
|---|---|---|
| **Sgriwtini Effeithiol** | **Anwytho** aelodau'r Panel – fformat gweithdy. | Gorffennaf 2021 ac yn ystod cyfarfodydd y Panel. |
| Sgiliau | **Sgiliau -** mewnbynnau hyfforddi a datblygu i sicrhau eglurder o ran rôl a gwybodaeth am y pwnc er mwyn galluogi craffu effeithiol e.e AGC, arweinwyr meysydd gwasanaeth, partneriaid. | Cyflawni drwy gydol y flwyddyn ddinesig gan sicrhau aliniad â gwaith sgriwtini y Panel |
| Hunan-werthuso | **Hunan-werthuso** – Aelodau'n beirniadu eu perfformiad eu hunain er mwyn galluogi adolygu, myfyrio a dysgu. Amcanion:<br><br>i. Cymryd stoc<br>ii. Adolygu, gwerthuso a myfyrio<br>iii. Sefydlu sylfaen ar gyfer y cyfnod nesaf<br>iv. Cadarnhau perchnogaeth yr Aelodau. | Yn flynyddol – i'w benderfynu gan aelodau'r Panel |
| **Rhiantu Corfforaethol**<br><br>Sgiliau a Gwybodaeth | Mewnbynnau hyfforddi a datblygu i sicrhau eglurder o ran rôl a chyfrifoldebau | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| Ffocws | Fframwaith Cyfreithiol<br>Darpariaeth gofal ar Ynys Môn<br>Canlyniadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal<br>Strategaeth Derbyn Gofal a Gadael Gofal. | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| **Ymweliadau Laming** | Aelodau Etholedig ac Uwch Arweinwyr i gwrdd â staff o amrywiaeth o dimau er mwyn clywed profiadau uniongyrchol staff. | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| **Rhanddeiliaid** | Craffu ar: | Cyflawni drwy gydol y flwyddyn ddinesig |

| Pwnc | Ffocws Rhaglen Waith | Amserlen |
|---|---|---|
| | • lais / ddylanwad rhanddeiliaid yn narpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn<br>• effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth wrth gefnogi darpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol | gan sicrhau aliniad â gwaith sgriwtini y Panel |
| **Llais y Defnyddiwr Gwasanaeth** | Craffu effeithiolrwydd y mecanweithiau sydd mewn lle i glywed llais plant, pobl ifanc ac oedolion fel rhan annatod o ddarpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn. | Cyflawni drwy gydol y flwyddyn ddinesig gan sicrhau aliniad â gwaith sgriwtini y Panel |
| **Perfformiad** | Monitro Dangosyddion Perfformiad mewnol ar draws Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd. | Cyflawni drwy gydol y flwyddyn ddinesig gan sicrhau aliniad â gwaith sgriwtini y Panel |
| **Rhaglenni Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol a Sicrhau Ansawdd** | Derbyn diweddariadau mewn perthynas â Rhaglen Ddatblygu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a gwaith Sicrhau Ansawdd. | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |

## RHAN III – TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT

**1. Aelodaeth y Panel**
Ni fydd aelodaeth y Panel yn amodol ar egwyddorion a rheolau cydbwysedd gwleidyddol[5].

Bydd aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

i. **Aelodau Etholedig** - 4 Aelod o'r ddau bwyllgor sgriwtini
ii. **Aelodau Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion a Gwasanaethau Plant)** – fel sylwedyddion, heb bleidlais
iii. **Swyddogion** – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Rheolwr Sgriwtini.

Bydd gwaith y Panel yn golygu y bydd angen i Aelodau Etholedig eraill (ee o'r Pwyllgor Gwaith) a / neu swyddogion o feysydd gwasanaeth eraill fynychu'r Panel.

**Panel Rhiantu Corfforaethol**
Fel yr uchod a hefyd:

<u>Cyngor Sir Ynys Môn</u>

**i.** **Aelodau Etholedig –** Deilyddion Portffolio – Tai, Plant ac Addysg
**ii.** **Prif Weithredwr (cadeirio)**
**iii.** **Gwasanaethau Cymdeithasol –** Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Rheolwr Gwasanaeth – Ymyrraeth Ddwys; Swyddogion Adolygu a Diogelu Annibynnol, Swyddogion Addysg Plant mewn Gofal a Gwasanaethau Ieuenctid
**iv.** **Housing Services –** Pennaeth Gwasanaethau Tai

[5] Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion sy'n rheoli cydbwysedd gwleidyddol awdurdodau lleol

v. **Addysg –** Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc; Uwch Reolwr – Llesiant

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

vi. Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Gwasanaethau Plant)

vii. Nyrs Plant mewn Gofal

viii. **Cymdeithas Rhieni Maeth Ynys Môn –** 1 cynrychiolydd

ix. **Tros Gynnal** – 1 cynrychiolydd

**2. Amlder Cyfarfodydd a Chworwm**

- **Amlder cyfarfodydd** – sefydlwyd fel panel sefydlog i sicrhau atebolrwydd, trosolwg a chraffu'r gwasanaethau cymdeithasol / rhiantu corfforaethol ar Ynys Môn, fel sydd wedi'i grynhoi yn y tabl uchod. Bydd y Panel felly'n cyfarfod yn rheolaidd, yn unol ag amserlenni cyflwyno adroddiadau cynnydd ar graffu gwasanaethau cymdeithasol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

- **Quorum** – ni fydd yn berthnasol i'r panel.

**3. Cofnodi Cyfarfodydd a Threfniadau Adrodd**

- Bwriedir rhedeg y panel ar ffurf cyfarfod busnes. Bydd yr Uned Sgriwtini'n coladu a dosbarthu unrhyw bapurau wrth baratoi ar gyfer pob cyfarfod a darparu rhestr o bwyntiau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod

- **Trefn adrodd** – cyflwyno adroddiadau rheolaidd gan aelodau'r panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

[26/05/22]

# <u>Cylch Gorchwyl Panel Rhiantu Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn</u>

**Pwrpas y Panel Rhiantu Corfforaethol**

Mae’r plant sydd yn ein gofal yn ogystal â’r bobl ifanc sy’n gadael gofal yn ‘blant i ni’. Fel Cyngor, rydym yn hynod uchelgeisiol ac am i bob plentyn/person ifanc yr ydym yn gyfrifol amdano gyrraedd ei lawn botensial.

Prif flaenoriaeth i Gyngor Môn yw bod Ynys Môn yn rhywle lle mae ein plant yn ffynnu. Fel rhieni corfforaethol, mae gan aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor, gyda chymorth cydweithwyr o asiantaethau statudol eraill, ddyletswydd i sicrhau bod llais a phrofiad ein plant yn ystod eu cyfnod mewn gofal, ac wedi hynny wrth iddynt adael gofal, yn cael ei glywed; bod eu hanghenion yn cael eu diwallu a'u bod yn derbyn yr un cyfleoedd mewn bywyd ag unrhyw blentyn arall.

Er mwyn cyflawni hyn:

- Bydd rhaid i aelodau etholedig hyrwyddo anghenion ein plant;
- Bydd rhaid i bartneriaid fod â disgwyliadau uchel ar gyfer ein plant;
- Bydd rhaid i Bartneriaeth Diogelu Gogledd Cymru a’r Panel Rhiantu Corfforaethol (PRC) ddarparu arweinyddiaeth effeithiol a chyfrannu’n sylweddol tuag at ddatblygu gwasanaethau sy’n cael eu harchwilio o ran eu heffeithiolrwydd.

Wrth ymarfer ei ddyletswyddau, bydd y panel yn ymwybodol o’r angen i hyrwyddo’r canlynol ar gyfer y plant y mae’r Cyngor yn gyfrifol amdanynt:

- Lles corfforol, meddyliol ac emosiynol;
- Gwarchod rhag camdriniaeth ac esgeulustod;
- Addysg, hyfforddiant a hamdden;
- Perthnasoedd teuluol a phersonol;
- Ymwneud â’r gymuned leol;
- Sicrhau breiniau a hawliau, yn cynnwys peidio â byw mewn tlodi;
- Byw mewn llety addas.

Y cyd-destun deddfwriaethol yw A78 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sydd yn rhoi dyletswydd ar gynghorau i ddiogelu a hyrwyddo lles bob plentyn y mae’n gofalu amdano, yn ogystal â phob un sy’n gadael gofal.

**Cyfrifoldebau’r Panel Rhiantu Corfforaethol**

1. Sicrhau bod hyrwyddwyr plant ac hyrwyddwyr plant mewn gofal y Cyngor yn parhau i weithredu fel eiriolwr ar ran ein plant.

2. Derbyn a chraffu ar adroddiadau mewn perthynas â gwasanaethau ar gyfer ein plant.

3. Monitro a herio gwelliannau i'r gwasanaeth yn drwyadl, ynghyd ag effaith ymarfer gwaith cymdeithasol ar wella canlyniadau ar gyfer ein plant.

4. Monitro a herio effeithiolrwydd y gwasanaethau o ran gwella cyraeddiadau addysgol ein plant.

5. Monitro a herio effeithiolrwydd y gwasanaethau wrth wella iechyd corfforol ac emosiynol ein plant.

6. Sicrhau bod cyfleoedd hamdden a diwylliannol yn cael eu cynnig, a'u derbyn, gan ein plant.

7. Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth aelodau ynglŷn â'n plant; eu hanghenion a'u profiadau, o fewn y Cyngor ac yn y gymuned ehangach.

8. Sicrhau bod yr holl aelodau etholedig yn gallu cyflawni eu rôl fel hyrwyddwyr rhiantu corfforaethol ac eiriolwyr ar ran ein plant drwy gynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu priodol iddynt.

9. Bod yn uchelgeisiol i sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer ein plant.

10. Sicrhau bod llais a phrofiad y plentyn yn ganolog i waith y Cyngor yn ei gyfanrwydd a bod yn greadigol wrth ystyried ym mha ffyrdd y bydd y Panel Rhiantu Corfforaethol (PRC) yn gwrando ar safbwyntiau ein plant ac ymateb iddynt.

11. Datblygu arbenigedd mewn materion sy'n effeithio ar ein plant.

12. Darparu cyfeiriad strategol rhyngasiantaethol er mwyn cyflawni canlyniadau da ar gyfer ein plant.

13. Cyfrannu at ddatblygiad y Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rhai sy'n Gadael Gofal; herio a dal i gyfrif o ran ei gyflawni.

14. Cyflawni 'addewid' y Cyngor i'n plant.

15. Adrodd yn flynyddol i'r Cyngor, gan amlinellu'r gwaith a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a nodi rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

**Aelodaeth a Llywodraethiant y Panel Rhiantu Corfforaethol**

Cynhelir cyfarfodydd yn chwarterol, ynghyd â chyfarfod ymlaen llaw i bennu'r rhaglen.

**Aelodau**
Prif Weithredwr Cyngor Môn (Cadeirydd)

**Y Pwyllgor Gwaith**

Deilydd y Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol
Deilydd y Portffolio Addysg
Deilydd y Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau

**Pwyllgorau Sgriwtini**

Aelod Etholedig Sgriwtini Corfforaethol
Aelod Etholedig Adfywio a Phartneriaeth
Aelod o'r Gymdeithas Gofalwyr Maeth
Aelod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Aelod o Voices from Care Cymru

**Swyddogion**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Dysgu
Rheolwr Gwasanaeth – Ymyrraeth Ddwys
Swyddogion Adolygu Annibynnol
Uwch Reolwr Safonau Ysgolion a Chynhwysiant
Swyddog Cyswllt Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal
Swyddog Iechyd Plant Sy'n Derbyn Gofal

Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am sicrhau bod y panel yn derbyn cefnogaeth ddigonol gan swyddogion i arwain y Strategaeth Rhiantu Corfforaethol.

Rheolwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Ymyrraeth Ddwys fydd swyddog arweiniol y panel, gyda chymorth gan arweinwyr gwasanaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, mabwysiadu a maethu ac eiriolaeth.

Bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am drefniadau gweinyddol y panel ac am ddarparu arweiniad cyfansoddiadol. Bydd y rhaglen ac adroddiadau'n cael eu dosbarthu wythnos cyn y cyfarfod.

**CYLCH GORCHWYL A *MODUS OPERANDI***

**PANEL SGRIWTINI CYLLID**

# RHAN 1 – CEFNDIR A CHYD-DESTUN

## Sgriwtini Ariannol

Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae Aelodau angen sicrwydd bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, sy'n prinhau, yn arbennig adnoddau ariannol:

*"… Mae craffu effeithiol yn bwysicach fyth wrth i wasanaethau cyhoeddus ymateb i her y sefyllfa ariannol fyd-eang tra'n parhau i geisio gwella gwasanaethau. Gall craffu effeithiol wella sail y dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau yn dryloyw ac yn cael eu gwneud yn unol ag anghenion y gymuned leol..."[1]*

*"Sut fedrwn ni ychwanegu gwerth?"* yw'r cwestiwn allweddol y dylid ei ofyn o safbwynt sgriwtini ariannol a "sut fedrwn ni ddangos bod gwerth wedi ei ychwanegu ym mhob cam o'r broses ariannol?" Yn y cyd-destun hwn, mae angen rhoi ystyriaeth i'r materion a ganlyn:

- Y broses o osod y gyllideb ynddi'i hun
- Penderfynu ar flaenoriaethau ymysg y gofynion sy'n cystadlu
- Defnydd effeithiol o gyllid
- Sut mae monitro a rheolaeth ariannol yn digwydd.

Mae sgriwtini ariannol yn golygu llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn unig. Mae'n ymwneud â sicrhau bod proses sgriwtini briodol yn cael ei gweithredu wrth gynllunio, gweithredu a dilyn i fyny ar benderfyniadau allweddol sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. O'r herwydd, mae Sgriwtini effeithiol yn gallu:

- Cynnig her effeithiol
- Dal y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flynddoedd sydd i ddod.

## Ein Trefniadau Lleol

Mae'r trefniadau craffu ar y broses flynyddol o sefydlu cyllideb y Cyngor wedi datblygu ac aeddfedu dros y blynyddoedd diwethaf gan osod y sylfeini ar gyfer dull gwell, mwy strategol a seiliedig ar ganlyniadau ac arfer da. Yn wir, gwelwyd y broses yn caniatau dilyn trywydd mwy systematig o ran sgriwtini ariannol, sy'n elfen hanfodol o reolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn.

'Roedd y gwaith craffu gan y Panel Sgriwtini Cyllid[2] yn ystod yr Weinyddiaeth ddiwethaf hefyd yn ddatblygiad cadarnhaol yn ein trefniadau craffu ariannol, drwy:

- Ddatblygu model yn ffocysu ar grwp llai
- Aelodau'n datblygu lefel o arbenigedd
- Annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm

[1] Craffu Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014. Hefyd, Disgwyliadau Uwch – craffu ariannol mewn cyfnod heriol. Arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol Cymru (Canolfan Graffu Cyhoeddus, Mehefin, 2014)
[2] Sefydlwyd y Panel Sgriwtini Cyllid yn yr Haf, 2017 fel is-banel o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

## RHAN II - YSTOD GWAITH A SGÔP Y PANEL

### YSTOD GWAITH

Bydd y Panel Sgriwtini Cyllid yn gweithredu gyda’r amcanion allweddol canlynol:

- Datblygu model o weithio yn y maes cyllidol sy’n ffocysu ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc, annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm
- Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau ariannol y Cyngor, fel sail i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Rhyddhau gofod ar raglenni cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i graffu eitemau trawsnewid a strategol
- Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau gyda’r arbenigedd a’r berchnogaeth i arwain trafodaethau cyllidol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

### SGÔP

| Pwnc | Rhaglen Waith | Amserlen |
|---|---|---|
| **Amwytho** | Amwytho aelodau’r Panel | 4 Gorffennaf, 2022 |
| **Monitro chwarterol y Gwariant Refeniw a Chyfalaf** | Craffu gwariant yn erbyn proffîl cyllidebau | Chwarterol |
| **Cyllideb y flwyddyn i ddod** | Rhannu gwybodaeth am risgiau ariannol y Cyngor i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Gorffennaf → Medi |
| | Cyllideb ddrafft – proses y setliad ariannol a sut mae’n gweithio | |
| | Trosolwg o’r sefyllfa ynghylch arbedion | Hydref → Tachwedd |
| | Craffu risgiau yn gysylltiedig â chynigion y gyllideb | |
| | Craffu pa mor gyraeddadwy ydy’r cynigion | |
| | Craffu lefel y Dreth Gyngor am y flwyddyn ddilynol | |
| **Cynllun Cyllidol Tymor Canol** | Craffu’r egwyddorion a rhagdybiaethau | Medi |
| **Meysydd Gwasanaeth** | Craffu ar y pwysau mewn gwasanaethau unigol | I’w rhaglennu yn ystod y cylch cyllideb blynyddol |
| **Rheoli Dyledion** | Craffu perfformiad rheolaeth dyledion (cynnwys graddfeydd casglu incwm) | I’w gadarnhau |
| **Ffioedd a Thaliadau** | Craffu ffioedd a thaliadau am y flwyddyn ariannol i ddod | I’w gadarnhau |
| **Premiwm Ail Dai** | Craffu ar yr egwyddorion, rhagdybiaethau ac argymhellion | Tachwedd / Rhagfyr (i’w gadarnhau) |

| Pwnc | Rhaglen Waith | Amserlen |
|---|---|---|
| **Cynllun Busnes HRA** | Craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau | Ionawr / Chwefror |
| **Balansau'r Cyngor ac arian wrth gefn** | Cwestiynu a chraffu | Mehefin / Gorffennaf |

## RHAN III – TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT

### 1. Aelodaeth y Panel

Ni fydd aelodaeth y Panel yn amodol ar egwyddorion a rheolau cydbwysedd gwleidyddol[3].

Bydd aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

i. **Aelodau Etholedig** – 3 aelod o'r ddau bwyllgor sgriwtini
ii. **Aelod Portffolio Adnoddau** – fel sylwedydd, heb bleidlais
iii. **Swyddogion** – Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog A151, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg, Rheolwr Sgriwtini.

Bydd gwaith y Panel yn golygu y bydd angen i Aelodau Etholedig eraill (ee o'r Pwyllgor Gwaith) a / neu swyddogion o feysydd gwasanaeth eraill fynychu'r Panel.

### 2. Amlder Cyfarfodydd a Chworwm

- **Amlder cyfarfodydd** – sefydlwyd fel panel sefydlog i ystyried yr amrediad o faterion cyllidol sydd wedi'u crynhoi yn y tabl uchod. Bydd y panel felly'n cyfarfod yn rheolaidd, yn unol ag amserlenni prosesau cyllidol y Cyngor.

- **Cworwm –** ni fydd yn berthnasol i'r panel.

### 3. Cofnodi Cyfarfodydd a Threfniadau Adrodd

- Bwriedir rhedeg y panel ar ffurf cyfarfod busnes. Bydd yr Uned Sgriwtini'n coladu a dosbarthu unrhyw bapurau wrth baratoi ar gyfer pob cyfarfod a darparu rhestr o bwyntiau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod

- **Trefn adrodd** - cyflwyno adroddiad rheolaidd gan aelodau'r panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

[20/06/22]

[3] Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion sy'n rheoli cydbwysedd gwleidyddol awdurdodau lleol

**CYLCH GORCHWYL a *MODUS OPERANDI***

**PANEL SGRIWTINI ADDYSG**

## RHAN I – CEFNDIR A CHYD-DESTUN

### Craffu ar Addysg

Mae atebolrwydd addysg a chraffu gan Aelodau ar y system addysg ehangach yn rôl hollbwysig ac yn un sy'n gofyn i'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid gydweithio'n effeithiol. Yn dilyn newidiadau i sut mae ysgolion yn gweithredu a gyda mwy o ddiwygio ar y gorwel[1], mae risg bosibl o lawer llai o eglurder a dealltwriaeth o bwy sy'n atebol am beth a phwy sydd â'r trosolwg o systemau addysg lleol.

Mae'n amserol felly i ailystyried beth yw rôl Aelodau Etholedig yn y system hon. Mae angen goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth leol glir a strwythuredig er mwyn sicrhau gwiriadau a chydbwysedd y tu allan i systemau llywodraethu ysgolion unigol o ran sut mae'r system addysg gyffredinol yn gweithredu ar lefel Sirol. I'r perwyl hwn, mae gan y Panel Sgriwtini Addysg gyfraniad pwysig i'w wneud. Mae sicrhau craffu ystyrlon a chadarn ar addysg yn elfen allweddol o rôl arweinyddiaeth Aelodau Sgriwtini. Mae craffu da yn golygu ychwanegu gwerth, cryfhau penderfyniadau a chanlyniadau.

Mae craffu ar addysg felly yn ymwneud â dwyn darparwyr lleol i gyfrif, ac ar lefel strategol:

- Edrych / craffu ar sut mae'r holl gydrannau yn cydweithio e.e. sut mae GwE yn cyflawni eu dyletswyddau, sut mae partneriaid lleol yn cydlynu gweithgareddau
- Bod pob ymdrech yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion a chymunedau.

Mae craffu ar addysg yn llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn unig. Mae'n ymwneud â sicrhau bod proses graffu briodol yn rhan o'r gwaith cynllunio, gweithredu a gwaith dilynol ar benderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar drethdalwyr a chymunedau lleol. Felly, gall craffu effeithiol:

- Herio'n effeithiol
- Dal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau cadarn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Ein Trefniadau Lleol

Mae craffu ar ysgolion wedi esblygu a datblygu ers sefydlu'r Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion yn 2012[2]. Tan yn ddiweddar, roedd rôl y Panel yn canolbwyntio ar wella perfformiad pob ysgol drwy ddarparu herio cadarn i berfformiad ysgolion unigol; annog rhannu arfer dda rhwng ysgolion, gan ystyried y gwersi a ddysgwyd a phrofiad ysgolion unigol; gwella gwybodaeth Aelodau lleol am yrwyr perfformiad allweddol a'r heriau sy'n wynebu ysgolion ar Ynys Môn; dangos tystiolaeth bod perfformiad ysgolion yn cael ei fonitro gan Aelodau Etholedig.

---

[1] Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 – yn creu fframwaith deddfwriaethol i wella'r gwaith o gynllunio a darparu darpariaeth dysgu ychwanegol;
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 – yn sefydlu Cwricwlwm i Gymru yn y gyfraith.

[2] Sefydlwyd y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion ym mis Tachwedd, 2012 gan y cyn Bwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden. Deilliodd o argymhellion a wnaed gan Estyn ar y pryd ar ansawdd gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc ar Ynys Môn.

CYFRINACHOL - DRAFFT 1

Mae'r gwaith craffu a wnaed gan y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion blaenorol yn ystod y degawd diwethaf wedi bod yn ddatblygiad cadarnhaol, gan gael effaith ar berfformiad ysgolion drwy:

- Datblygu model sy'n canolbwyntio ar grŵp llai
- Aelodau yn datblygu lefel o arbenigedd
- Annog presenoldeb da a gwaith tîm.

## RHAN II – CYLCH GWAITH A CHWMPAS Y PANEL

### Cylch Gwaith

Mae'n **gam nesaf naturiol** i ddatblygu gwaith craffu Aelodau ar addysg ymhellach gan sicrhau cwmpas ehangach i'w waith, gyda'r manteision allweddol a ganlyn:

- Datblygu model o weithio mewn Addysg sy'n canolbwyntio ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc ac annog presenoldeb da a gwaith tîm
- Cryfhau gallu Aelodau i herio perfformiad ymhellach drwy wella ansawdd gwybodaeth a data am ysgolion
- Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau Gwasanaeth fel sail i flaen rhaglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
- Fforwm i ddatblygu grŵp o Aelodau gyda'r arbenigedd a pherchnogaeth i arwain trafodaethau ar faterion Addysg yn y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

**Beth mae Estyn yn disgwyl ei weld o ran arweinyddiaeth wleidyddol a sgriwtini**

Mae gan Aelodau Etholedig wybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o'r ddarpariaeth addysg i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol:

1. **Safonau – herio perfformiad er mwyn codi safonau cyrhaeddiad addysgol**
2. **Ansawdd – dealltwriaeth o ehangder ac ansawdd y ddarpariaeth addysg**
3. **Arweinyddiaeth – dealltwriaeth o effeithiolrwydd arweinyddiaeth addysg ar bob lefel yn y Sir.**

### CWMPAS

| Pwnc | Ffocws Rhaglen Waith | Amserlen |
|---|---|---|
| **Sgriwtini Effeithiol** | **Sesiwn Anwytho** aelodau'r Panel – fformat gweithdy. | 14 Gorffennaf, 2022 |
| Sgiliau | **Sgiliau -** mewnbwn hyfforddi a datblygu i sicrhau eglurder rôl a gwybodaeth bynciol i alluogi craffu effeithiol e.e Estyn, GwE, arweinwyr meysydd gwasanaeth. | Cyflawni drwy gydol y flwyddyn ddinesig gan sicrhau aliniad â gwaith sgriwtini'r Panel |

CYFRINACHOL - DRAFFT

| Pwnc | Ffocws Rhaglen Waith | Amserlen |
|---|---|---|
| Hunan-werthuso | **Hunan-werthuso** – Aelodau'n beirniadu eu perfformiad eu hunain er mwyn galluogi adolygu, myfyrio a dysgu. Amcanion:<br>i. Cyfrif stoc<br>ii. Adolygu, gwerthuso a myfyrio<br>iii. Sefydlu sylfaen ar gyfer y cyfnod nesaf<br>iv. Cadarnhau perchnogaeth yr Aelodau. | Yn flynynddol – i'w benderfynu gan aelodau'r Panel |
| **Safonau** | Craffu ar berfformiad:<br>• Y Gwasanaeth Dysgu<br>• Ysgolion Unigol<br><br>er mwyn codi safonau yn y Sir.<br><br>[ffynhonnell data: Canllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru ar ddata perfformiad] | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| | Craffu perfformiad ar agweddau llesiant gan ganolbwyntio'n benodol ar:<br>• Presenoldeb<br>• Gwaharddiadau<br>• Ysgolion sy'n wybodus am drawma<br><br>[ffynhonnell data: data awdurdodau lleol ar bresenoldeb a gwaharddiadau] | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| **Rhanddeiliaid** | Craffu ar:<br>• llais / dylanwad rhanddeiliaid yn y ddarpariaeth addysg ar Ynys Môn<br>• effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth wrth gefnogi cyflwyno gwasanaethau addysg | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| **Llais y Dysgwr** | Craffu effeithiolrwydd y mecanweithiau sydd yn eu lle i glywed llais y dysgwr fel rhan annatod o ddarpariaeth addysg Ynys Môn. | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| **Effeithiolrwydd gwasanaeth** | Monitro a chraffu ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth addysg (cryfderau a gwendidau) gan gynnwys:<br>• plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed – Anghenion Dysgu Ychwanegol, Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG), cohort Prydau Ysgol Am Ddim<br>• dysgwyr dawnus ac abl<br>• Addasu'r cwricwlwm (i gwrdd ag anghenion dysgwyr)<br>• Unrhyw flaenoriaethau allweddol eraill a nodir gan y Gwasanaeth | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |

CYFRINACHOL - DRAFFT

| Pwnc | Ffocws Rhaglen Waith | Amserlen |
|---|---|---|
| | **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018** | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| | **Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 –** Cwricwlwm i Gymru | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| **Arweinyddiaeth** | Craffu ar effeithiolrwydd<br>• arweinyddiaeth addysg ar bob lefel<br>• cynllunio olyniaeth<br>• datblygu a chadw staff | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| | **Dysgu Proffesiynol** | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| **Y Gymraeg (ffocws 10 mlynedd)** | • Craffu / monitro cyflawniad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer Ynys Môn<br>• Monitro perfformiad lleol yn erbyn dangosyddion perfformiad cenedlaethol yn flynyddol | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |

## RHAN III – TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT

### 1. Aelodaeth y Panel

Ni fydd aelodaeth y Panel yn amodol ar egwyddorion a rheolau cydbwysedd gwleidyddol[3].

Bydd aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

i. **Aelodau Etholedig** – 4 aelod o'r ddau bwyllgor sgriwtini
ii. **Aelod Portffolio Addysg** – fel sylwedydd, heb bleidlais
iii. **Swyddogion** – Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg, Rheolwr Sgriwtini.

Bydd gwaith y Panel yn golygu y bydd angen i Aelodau Etholedig eraill (ee o'r Pwyllgor Gwaith) a / neu swyddogion o feysydd gwasanaeth eraill fynychu'r Panel.

### 2. Amlder Cyfarfodydd a Chworwm

- **Amlder cyfarfodydd** – sefydlwyd fel panel sefydlog i sicrhau atebolrwydd, trosolwg a chraffu'r system addysg ar Ynys Môn, fel sydd wedi'i grynhoi yn y tabl uchod. Bydd y panel felly'n cyfarfod yn rheolaidd, yn unol ag amserlenni cyflwyno adroddiad cynnydd ar graffu addysg i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

[3] Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion sy'n rheoli cydbwysedd gwleidyddol awdurdodau lleol

CYFRINACHOL - DRAFFT

- **Cworwm –** ni fydd yn berthnasol i'r panel.

**3. Cofnodi Cyfarfodydd a Threfniadau Adrodd**

- Bwriedir rhedeg y panel ar ffurf cyfarfod busnes.  Bydd yr Uned Sgriwtini'n coladu a dosbarthu unrhyw bapurau wrth baratoi ar gyfer pob cyfarfod a darparu rhestr o bwyntiau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod

- **Trefn adrodd** - cyflwyno adroddiad rheolaidd gan aelodau'r panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

[23/05/22]

CYFRINACHOL - DRAFFT

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **21 Mehefin, 2022** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2022/22** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2022/23<br>**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]**<br><br>**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar: |

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith

ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2022/23 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
| --- |
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Ionawr, 2022

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2022/23 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2022→ Ebrill, 2023**
**[Fersiwn dyddiedig 09/06/22]**



**Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd**
Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2022 (31/05/22)** | **Mai, 2022 (31/05/22)** |
| Ethol Cadeirydd: 2022/23 | Ethol Cadeirydd: 2022/23 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2022/23 | Ethol Is-gadeirydd: 2022/23 |
| | |
| **Mehefin, 2022 (20/06/22)** | **Mehefin, 2022 (21/06/22)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2021/22 | Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2021/22 |
| Enwebu Aelodau Sgriwtini i Wasanaethu ar Banelau a Byrddau | Enwebu Aelodau Sgriwtini i Wasanaethu ar Banelau a Byrddau |
| | Diweddariad - er gwybodaeth:<br>• Adroddiad Cynnydd Ch 4 2021/22 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Medi, 2022 (19/09/22) – Ch1** | **Medi, 2022 (19/09/22)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2022/23 | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2021/22 |
| Cynllun y Cyngor: 2022/23 ymlaen (eitem i'w chadarnhau) | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol / Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad (Gofal Cymdeithasol) |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn: 2021/22 (eitem i'w chadarnhau) |
| | Diweddariad - er gwybodaeth:<br>• Adroddiad Cynnydd Ch 1 2022/23 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Hydref, 2022 (19/10/22)** | **Hydref, 2022 (18/10/22)** |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2021/22 | Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2021/22 |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Tachwedd, 2022 (22/11/22) - Ch2** | **Tachwedd, 2022 (23/11/22)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2022/23 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| | Diweddariad - er gwybodaeth:<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus- Trefniadau Llywodraethu<br>• Adroddiad Cynnydd Ch2: 2022/23 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Ionawr, 2023 (19/01/23) – Cyllideb 2023/24** | **Ionawr, 2023 (17/01/23)** |
| Sefydlu Cyllideb 2023/24 (cyllideb refeniw) -cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Sefydlu Cyllideb 2023/24 (cyllideb gyfalaf) – cynigion drafft cychwynnol | Adroddiad Blynyddol – Partneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Chwefror, 2023 (28/02/23) – Cyllideb 2023/24** | **Chwefror, 2023 (07/02/23)** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2023/24 – refeniw a chyfalaf | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Mawrth, 2023 (14/03/23) - Ch3** | **Mawrth, 2023 (15/03/23)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2022/23 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2021/22 |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2023/24 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol / Adroddiad Cynnydd Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | Diweddariad - er gwybodaeth:<br>• Adroddiad Cynnydd Ch3:2022/23 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |
| **Ebrill, 2023 (19/04/23)** | **Ebrill, 2023 (19/04/2023)** |
| | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 |
| | |

**Eitemau i’w rhaglennu**

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| Cynllun Rheoli AHNE 2021/25 | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Strategaeth Gwasanaethau Clinigol |
| Polisi Rheoli Asedau Gwasanaeth 2021/31 – Ystad Mân-ddaliadau | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Polisi Rheoli Asedau Corfforaethol 2021/26 | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| | Medrwn Môn |
| | Craffu ar Bartneriaethau |
| | Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu |
| | Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| | Cynllun Cyrchfan |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru: 2021/22 |
| | Adroddiad Blynyddol GwE: 2021/22 |
| | Eitemau Addysg o Bwys Strategol |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **21 Mehefin, 2022** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Cynnydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Chwarter 4: 2021/22** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cyflwyno adroddiad cynnydd Chwarter 4: 2021/22 y Cynllun Twf yn unol â Chytundeb Terfynol y Cynllun Twf** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Dylan Rees** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Llinos Medi Huws, Arweinydd y Cyngor**<br><br>**Cyng Carwyn Jones, Aelod Portffolio - Datblygu'r Economi, Hamdden a Thwristiaeth** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dylan Williams, Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Dylan Williams, Prif Weithredwr**<br>**01248 752499**<br>**DylanWilliams@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor:<br>**A1** nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod Chwarter 3 (2021/22). |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r Cyngor:<br><br>• Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir – Swyddi a chyfleoedd gwaith<br>• Chydweithio â chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru er mwyn denu buddsoddiad a sicrhau bod prosiectau allweddol sy'n cynnig cyflogaeth leol yn mynd yn eu blaenau. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal |

- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Ym mis Rhagfyr, 2020 fe wnaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

1.2 Mae adrodd yn rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Atodir Adroddiad Perfformiad Cynllun Twf Gogledd Cymru Chwarter 4: 2021/22 (**Atodiad 1**).

2. **Cynnydd Chwarter**

**2.1** Mae adroddiad perfformiad Chwarter 4 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf.

**2.2** Yn dilyn cymeradwyo'r Cynllun Busnes Llawn (FBC) cyntaf ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru ym mis Rhagfyr 2021, rydym wedi symud ymlaen yn swyddogol i'r wedd cyflawni. Mae'r prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) bellach wedi gosod archebion ar gyfer gwedd un y prosiect ac mae'r eitemau cyntaf o offer wedi'u derbyn.

**2.3** Mae dau brosiect pellach wedi cwblhau eu hadolygiadau sicrwydd porth yn llwyddiannus yn ystod y chwarter hwn. Fe wnaeth y prosiect Ychydig % Olaf gwblhau ei adolygiad Porth 2 ym mis Chwefror 2022 gyda'r prosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol wedi cwblhau ei adolygiad Porth 1 ym mis Ionawr 2022. Mae'r ddau brosiect yn gweithio ar roi sylwi i'r argymhellion fel rhan o'r gwaith o ddatblygu eu hachosion busnes.

**2.4** Yn sgil mabwysiadu diweddariad 2021 i Achos Busnes y Portffolio ym mis Medi, fe wnaethom gyflwyno'r diweddariad i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol. Ym mis Mawrth, fe wnaethom dderbyn a llofnodi'r llythyr dyfarnu cyllid ar gyfer 2021-22 gan gadarnhau rhandaliad nesaf cyllid y Cynllun Twf o £20.45m.

**2.5** Fe wnaethom lansio ein brand newydd 'Uchelgais Gogledd Cymru' a'n gwefan newydd - https://uchelgaisgogledd.cymru ym mis Tachwedd 2021. Mae hyn rhoi llwyfan i ni i farchnata ac ymgysylltu ac mae'n declyn allweddol i'r Gogledd gynrychioli'r weledigaeth ar gyfer ffyniant economaidd yn y dyfodol

ac yn sianel i rannu gwybodaeth a symud ymlaen tuag at gyflawni'r Cynllun Twf.

**2.6** Mae diweddariad Chwarter 4 yn dangos prosiectau yn adrodd yn erbyn proffil cyflawni Achos Busnes diwygiedig y Portffolio ar gyfer 2021 a gymeradwywyd gan y Bwrdd Uchelgais ym mis Medi 2021. Mae pum prosiect yn adrodd yn Goch ar hyn o bryd naill yn sgil risgiau i sgôp y prosiectau, neu oedi sylweddol i amserlenni'r prosiectau:

- Prosiect Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel - prosiect yn cael ei adolygu yn sgil cais i newid y rhagamcanion cyfalaf a refeniw
- Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan (Y Rhaglen Tir ac Eiddo) - mae caniatâd cynllunio amlinellol ar y safle wedi llithro a bydd angen adolygu'r prosiect pan fydd y polisi cynllunio newydd ar gyfer y safle wedi'i sefydlu
- Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon (Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth) - caniatâd cynllunio i'w sicrhau a bwlch ariannu posib yn sgil costau cyfalaf adeiladu yn cynyddu
- Fferm Sero Net Llysfasi (Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth) - oedi gyda'r prosiect yn ymgorffori adborth adolygiad Porth 2
- Rhwydwaith Talent Twristiaeth (Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth) - strwythur cyfreithiol y model prif ganolfan a lloerennau i'w gytuno ac mae'r gwaith ar ddatblygu'r achos busnes ar ei hôl hi.

**2.7** Yn dilyn cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn cyntaf ym mis Rhagfyr 2021, roedd y gwariant mewn perthynas â phrosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol yn £123k yn Chwarter 4. Mae'r prosiect DSP wedi gosod yr archebion ar gyfer gwedd gyntaf y prosiect; fodd bynnag, ni fyddwn yn derbyn rhan fwya'r offer tan ar ôl mis Ebrill 2022.

## 3. Cofrestr Risg y Portffolio – Mawrth, 2022

3.1 Caiff Cofrestr Risg y Portffolio ei diweddaru'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu gan y Bwrdd Portffolio (y Grŵp Swyddogion Gweithredol) a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn chwarterol.

**3.2** Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru'n llawn gyda nifer o newidiadau wedi'u cofnodi yn y dogfennau, yn cynnwys disgrifiadau risg wedi'u diwygio, sgorio a chamau lliniaru diwygiedig ac mae'r sylwadau wedi'u diweddaru ar gyfer yr holl risgiau.

**3.3** Mae'r proffil risg wedi cynyddu dros y chwarter diwethaf. Bellach, fforddiadwyedd yw'r risg fwyaf sy'n wynebu'r portffolio, a chwyddiant, materion cadwyn gyflenwi a chynnydd sylweddol mewn costau adeiladu yw'r prif ffactorau sy'n gyrru'r cynnydd hwn. Mae gan y risg gynyddol ynghylch fforddiadwyedd effaith uniongyrchol ar draws y portffolio gan gynyddu'r risgiau o amgylch oedi o fewn prosiectau, bodloni targedau amcanion gwario a chyflawni ar ddyheadau newid hinsawdd.

**3.4** Mae pum gradd risg gweddilliol wedi cynyddu y chwarter hwn - fforddiadwyedd, oedi, newid hinsawdd a bioamrywiaeth, amcanion gwario a newid gwleidyddol. Mae'r risg adfer yr economi wedi gostwng yn sgil

| |
|---|
| cyhoeddi'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol a'r symud o bandemig i endemig. |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol yn uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Mae'r adroddiad perfformiad chwarterol yn darparu trosolwg o broffil gwariant cyfalaf disgwyliedig cyllid y Cynllun Twf ac mae'n cynnwys y gwariant ariannol gwirioneddol yn dilyn cymeradwyo achosion busnes y prosiectau. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Adroddiad Perfformiad Cynllun Twf Gogledd Cymru Chwarter 4: 2021/22. |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

# Cynllun Twf Gogledd Cymru

## Adroddiad Perfformiad
## Chwarter 4 2021-22
## (Ionawr i Mawrth 2021)

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
UK Government
Llywodraeth y DU
Office of the Secretary of State for Wales
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio 3

2. Perfformiad Cyffredinol y Portffolio 4

3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol 5

4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel 7

5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo 10

6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth 13

7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel 15

8. Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 2021 17

9. Tabl Olrhain Amcanion Gwario Prosiectau'r Cynllun Twf - Trosolwg o gyflawni 18

10. Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 2021 19

ATODIAD A - Crynodeb o Brosiectau'r Cynllun Twf 22

# 1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio



Yn dilyn cymeradwyo'r Cynllun Busnes Llawn (FBC) cyntaf ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru ym mis Rhagfyr 2021, rydym wedi symud ymlaen yn swyddogol i'r wedd cyflawni. Mae'r Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) bellach wedi gosod archebion ar gyfer gwedd un y prosiect ac mae'r eitemau cyntaf o offer wedi'u derbyn.

Edrychwn ymlaen yn awr i weld y Ganolfan DSP yn rhoi Gogledd Cymru ar y map yn nhermau ei waith arloesol yn y sector . Mae'n bwysig hefyd y gall ein partneriaid, ein busnesau a'r cyhoedd ledled y rhanbarth ddechrau gweld y cyfleoedd gwirioneddol a'r buddion pendant a ddaw o gyllid y Cynllun Twf.

Mae dau brosiect pellach wedi cwblhau eu hadolygiadau sicrwydd porth yn llwyddiannus yn ystod y chwarter hwn. Fe wnaeth y prosiect Ychydig % Olaf gwblhau ei adolygiad Porth 2 ym mis Chwefror 2022 gyda'r prosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol wedi cwblhau ei adolygiad Porth 1 ym mis Ionawr 2022. Mae'r ddau brosiect yn gweithio ar roi sylwi i'r argymhellion fel rhan o'r gwaith o ddatblygu eu hachosion busnes.

Yn sgil mabwysiadu diweddariad 2021 i Achos Busnes y Portffolio ym mis Medi, fe wnaethom gyflwyno'r diweddariad i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol. Ym mis Mawrth, fe wnaethom **dderbyn a llofnodi'r llythyr dyfarnu cyllid** ar gyfer 2021-22 gan **gadarnhau rhandaliad nesaf cyllid y Cynllun Twf o £20.45m**.


Fe wnaethom lansio ein brand newydd **'Uchelgais Gogledd Cymru'** a'n gwefan newydd - https://uchelgaisgogledd.cymru ym mis Tachwedd 2021. Mae hyn rhoi llwyfan i ni i farchnata ac ymgysylltu ac mae'n declyn allweddol i'r Gogledd gynrychioli'r weledigaeth ar gyfer ffyniant economaidd yn y dyfodol ac yn sianel i rannu gwybodaeth a symud ymlaen tuag at gyflawni'r Cynllun Twf.

Un o'n blaenoriaethau allweddol nawr yw **datblygu ein strategaeth ar gyfer denu buddsoddiad sector preifat**. Mae gennym strategaeth ddrafft yn ei lle sy'n cydnabod y gofyn i ddenu buddsoddiad sector preifat yn uniongyrchol i brosiectau'r Cynllun Twf, ond mae hefyd yn cydnabod y bydd buddsoddiad y Cynllun Twf yn gwella isadeiledd y rhanbarth, gan felly greu cyfleoedd buddsoddi mwy apelgar ar gyfer y sector busnes ac amlygu ein cryfderau a'n natur gystadleuol fel rhanbarth.

Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn eithriadol o ran y ffordd rydym yn gweithio a bellach, mae gennym gyfle i estyn allan i'r farchnad buddsoddwyd, gyda dull gweithredu a fydd yn denu ac yn magu diddordeb ac **yn dangos y potensial y gall y Gogledd ei ddarparu i fuddsoddwyr**.

Mae gyrru tuag at **ddyfodol sero-net** yn egwyddor sylfaenol ar gyfer y Cynllun Twf. Buddsoddi mewn ffordd sy'n hyrwyddo dyfodol gwyrddach a glanach drwy ein buddsoddiadau. Rydym wedi gweithio gydag Arup ar ddull sy'n arwain y ffordd ar gyfer buddsoddi cyfalaf i ystyried datblygu cynaliadwy a chyflawni'n wirioneddol yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth i ni symud ymlaen. Disgrifiwyd hyn fel dull arloesol gan ein partneriaid, Arup, ac rydym yn falch o fod yn arwain y ffordd yn y Gogledd.






**Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio**

| Themâu | Statws RAG | Sylwadau |
|---|---|---|
| Achos Busnes y Portffolio | | Ystyriodd a chymeradwyodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Bwrdd Uchelgais" neu "y Bwrdd") ddiweddariad 2021 Achos Busnes y Portffolio ym mis Medi a chaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am gymeradwyaeth fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol. Mae'r llythyr dyfarnu cyllid ar gyfer 2021-22 wedi'i dderbyn gan gadarnhau dyfarnu £20,445,000 fel ail randaliad cyllid y Cynllun Twf. |
| Piblinell Cyflawni | | Mae nifer o brosiectau'n rhagweld mân oedi yn erbyn yr amserlen gyflawni gymeradwy.<br><br>Bydd penderfyniad y Bwrdd i uno prosiectau o fewn y Rhaglen Ddigidol yn effeithio ar yr amserlen gyflawni ond yn cynnig manteision sylweddol o ran telerau a chyfle i sicrhau gwerth ychwanegol am arian i'r rhanbarth. Mae gan y risg fforddiadwyedd gynyddol y potensial i achosi oedi i'r biblinell gyflenwi. |
| Llywodraethu | | Cymeradwywyd Cytundeb Llywodraethu 2 gan yr holl bartneriaid ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn gweithredu'n effeithiol. Mae'r broses Gwrthdaro Buddiannau wedi'i chyflwyno. |
| Sicrwydd | | Cynhaliwyd ail adolygiad sicrwydd blynyddol o'r Cynllun Twf (Adolygiad Sicrwydd Rhaglen) ym mis Awst 2021 gan gyflawni gradd hyder o Ambr-Gwyrdd, sy'n welliant ar y radd Ambr a dderbyniwyd yn 2020. Mae trafodaethau bellach ar y gweill ynghylch adolygiad 2022. |
| Adnoddau a Chapasiti | | Mae un swydd wag yn y Swyddfa Rheoli Portffolio oherwydd bod y Rheolwr Prosiect Tir ac Eiddo yn gadael i ymgymryd â rôl arall.<br>Mae recriwtio ar y gweill i gael rhywun i gymryd ei le. |
| Cyllid | | Mae'r prosiect DSP, a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr, wedi gosod yr archebion ar gyfer gwedd gyntaf y prosiect; fodd bynnag, ni fyddwn yn derbyn rhan fwya'r offer tan ar ôl mis Ebrill 2022 gyda dim ond £123k o wariant wedi'i gronni yn ystod 2021-22. Mae'r gwariant sy'n weddill yn y flwyddyn ariannol hon yn ymwneud â thynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad 1.5% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio.<br><br>Mae sicrhau'r buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Twf yn parhau i fod y risg fwyaf ar draws y portffolio ac mae strategaeth buddsoddi yn cael ei datblygu i gefnogi'r tîm i fodloni'r targedau buddsoddi. |
| Risg | | Mae'r proffil risg wedi cynyddu dros y chwarter diwethaf. Bellach, fforddiadwyedd yw'r risg fwyaf sy'n wynebu'r portffolio, a chwyddiant, materion cadwyn gyflenwi a chynnydd sylweddol mewn costau adeiladu yw'r prif ffactorau sy'n gyrru'r cynnydd hwn. Mae gan y risg gynyddol ynghylch fforddiadwyedd effaith uniongyrchol ar draws y portffolio gan gynyddu'r risgiau o amgylch oedi o fewn prosiectau, bodloni targedau amcanion gwario a chyflawni ar ddyheadau newid hinsawdd. |
| Monitro a Gwerthuso | | Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso diwygiedig wedi'i gyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel rhan o ddiweddariad blynyddol Achos Busnes Portffolio 2021. |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | | Gwelodd y chwarter hwn ddechrau ein cyfres Trafodaeth Ddigidol newydd. Roedd y drafodaeth gyntaf yn ymwneud â phwysigrwydd cadw pobl ifanc yn y Gogledd, a oedd yn rhan o'n hymgyrch drwy gydol y chwarter gyda M-sparc, o'r enw 'Dewch yn ôl'. Ffocws yr ymgyrch oedd denu pobl ifanc yn ôl i'r rhanbarth, roedd hefyd yn cynnwys gweithgareddau fel darnau barn a fideo i hyrwyddo cyfleoedd yn y rhanbarth. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (ambr) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed |
|---|---|---|---|
| Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus. | 380 | £158m | £41.7m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Ambr) | • Mae'r prosiect DSP bellach yn cael ei gyflawni gydag eitemau cyntaf o offer a ariennir gan y Cynllun Twf yn cyrraedd Ch4 21/22.<br>• Fe wnaeth y prosiect Ychydig % Olaf gwblhau ei adolygiad Porth 2 gyda'r argymhellion yn cael sylw yn Ch4 ac i mewn i Ch1 22/23 gydag adolygiad Sicrwydd Gweithredu i'w gynnal cyn cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol i'r Bwrdd Uchelgais.<br>• Cymeradwyodd y Bwrdd Uchelgais newid i'r Rhaglen ym mis Mawrth, yn cynnwys y prosiectau Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol a Choridorau Cysylltiedig sy'n uno i ffurfio un prosiect. Ni chynigir unrhyw newidiadau i gyllideb gyffredinol y prosiect na'r amcanion gwariant a bydd y newid yn gwella'r modd y caiff achosion busnes eu cyflawni, y gallu i lywodraethu a'r canlyniadau caffael.<br>• Bydd datblygiad achos busnes Campws Cysylltiedig yn mynd rhagddo'n awr ochr yn ochr â'r prosiect 'Safleoedd a choridorau allweddol cysylltiedig' newydd i sicrhau bod unrhyw synergeddau pellach yn cael eu nodi ar adegau allweddol wrth i'r prosiectau fynd drwy'r broses SOC-OBC-FBC. |



Mark Pritchard
Aelod Arweiniol



Sioned Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Stuart Whitfield
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (Ambr) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (Coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Prosesu Signal Digidol** Prifysgol Bangor | Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo | • Caffael wedi'i gwblhau gyda'r holl eitemau yng ngwedd 1 o fewn y gyllideb<br>• Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais a sicrwydd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraethau Cymru a'r DU | • Cyflawni gwedd gyntaf yr offer<br>• Adolygiad Porth 4 ('Parodrwydd am y Gwasanaeth')<br>• Dechrau gweithgareddau Ymchwil a Datblygu sy'n gysylltiedig â buddsoddiad y Cynllun Twf. | | • Cynnydd ar y trywydd iawn heb unrhyw rwystrau wedi'u hadnabod |
| **Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Adolygiad Porth 2 ('Strategaeth Cyflawni')<br>• adolygiad wedi'i gwblhau<br>• 'Ymatebion cyflenwyr' wedi'u derbyn drwy Adolygiad Marchnad Agored Llywodraeth Cymru | • 'Adolygiad Sicrwydd Gweithredu' yn dilyn argymhelliad Porth 2<br>• Cwblhau achosion Masnacho, Ariannol ac Economaidd | | • Mae angen gweithredu ar argymhellion Porth 2 cyn cyflwyno'r OBC i'r Bwrdd Uchelgais |
| **Coridorau Cysylltiedig**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais i'r newid i uno'r prosiect Ffibr llawn mewn Safleoedd Allweddol<br>• Arolwg darpariaeth signal symudol i'w gwblhau diwedd Mawrth | • Gweithgareddau prosiect yn parhau yn y prosiect Safleoedd a choridorau cysylltiedig allweddol<br>• SOC i'w ddatblygu<br>• Llywodraethiant y prosiect i gael ei gytuno | | • Datblygiad achos busnes y prosiect i gael ei ail-broffilio i gyd-fynd â'r prosiect newydd sydd wedi'i gyfuno |
| **Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais i'r newid i uno'r prosiect Ffibr llawn mewn Safleoedd Allweddol | • Gweithgareddau prosiect yn parhau yn y prosiect Safleoedd a choridorau cysylltiedig allweddol<br>• SOC i'w ddatblygu<br>• Llywodraethiant y prosiect i gael ei gytuno | | • Datblygiad achos busnes y prosiect i gael ei ail-broffilio i gyd-fynd â'r prosiect newydd sydd wedi'i gyfuno |
| **Campysau Cysylltiedig**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Adolygiad y bwrdd prosiect o safleoedd targed | • Datblygu Achos Amlinellol Strategol<br>• Caffael cefnogaeth allanol i ddarparu arbenigedd a chapasiti technegol | | • Achos busnes y prosiect bellach yn cyd-fynd â'r prosiect Safleoedd a choridorau cysylltiedig allweddol newydd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt<br>(dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed |
|---|---|---|---|
| Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi. | 980 | £530m | £668.5m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • RAG Ambr oherwydd oedi i achosion busnes Datgarboneiddio Trafnidiaeth ac Egni ac effeithiau posibl ceisiadau am newid Egni a Morlais ar Amcanion Gwariant Rhaglenni<br>• Ynni Lleol Blaengar: SOC wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Rhaglen. Datblygu'r OBC wedi dechrau. Consortiwm, dan arweiniad EA Technology, wedi'i gomisiynu i gyflawni astudiaethau dichonolrwydd wedi'u hariannu gan CRF erbyn mis Mehefin 22.<br>• Datgarboneiddio Trafnidiaeth (Hydrogen) Yn ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer y ffordd ymlaen a ffefrir ym mis Ebrill yn dilyn cadarnhad gan y byrddau prosiect, rhaglen a phortffolio.<br>• Egni: Mae amserlen y prosiect wedi'i hadolygu i ddangos oediad posib o 8 mis i gyflawni'r achos busnes. Prifysgol Bangor i ddechrau gyda'r Achos Amlinellol Strategol<br>• Morlais: Prosiect yn barod i ddechrau'r brif weddi adeiladu yn sgil sicrhau caniatadau, £31m o gyllid ERDF a chytuno ar gontractau adeiladu.<br>• Trawsfynydd: Cynllun Busnes wedi'i ddatblygu ar gyfer Cwmni Egino a recriwtio prif weithredwr a chyfarwyddwyr anweithredol<br>• Swyddfa Rheoli Rhaglen i gydlynu'r gwaith o gyflawni Cynlluniau Ynni Ardal Leol gyda chefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru |





Y Cynghorydd Llinos Medi
Aelod Arweiniol



Dylan Williams
Uwch Berchennog Cyfrifol



Henry Aron
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt<br>(dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

## 4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Morlais**<br>Menter Môn | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Mae'r prosiect wedi derbyn £31m o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar gyfer prosiect isadeiledd Morlais.<br>• Sicrhaodd Jones Bros Civil Engineering gontract i adeiladu'r isadeiledd ar y tir<br>• Gwnaed y Penderfyniad Buddsoddi Terfynol gan Fwrdd Menter Môn ar 23 Mawrth<br>• Clirio amodau caniatâd cyn adeiladu yn llwyddiannus | • Dechrau ar y brif wedd adeiladu<br>• Bydd y Cais i Newid ar gyfer cyllid Cynllun Twf o £9m a ddyrennir ar hyn o bryd i'r prosiect i'w gyflwyno er ystyriaeth y Bwrdd Uchelgais | | • Mae risgiau prosiectau wedi gostwng yn dilyn penderfyniadau cydsyniad cadarnhaol, cadarnhau cyllid WEFO a chyhoeddiadau Llywodraeth y DU ar gontractau blynyddol ar gyfer rowndiau ocsiwn gwahanol<br>• Gradd Ambr yn sgil y cais i newid disgwyliedig ar gyfer cyllid Cynllun Twf o £9m a ddyrennir ar hyn o bryd i'r prosiect |
| **Datgarboneiddio Trafnidiaeth (Prosiect Hydrogen)**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Y ffordd arfaethedig ymlaen wedi'i chymeradwyo gan y byrddau prosiect, rhaglen a phortffolio. Bydd y cam cyntaf yn canolbwyntio cynhyrchu hydrogen gwyrdd yn y rhanbarth gyda chymorth gan bartner masnachol. Bydd yr ail gam yn canolbwyntio ar ranbartholi drwy alw am drafnidiaeth yn y sector cyhoeddus a/neu ddosbarthiad rhanbarthol<br>• Paratoi ar gyfer cam cyntaf y ffordd ymlaen a ffefrir - cyhoeddi hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw (PIN). | • Cael cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer y ffordd arfaethedig ymlaen<br>• Cyhoeddi'r hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw (PIN) fel dull o ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar | | • Bydd oedi wrth gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol er mwyn caniatáu caffael partner masnachol (yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd i'r dull arfaethedig)<br>• Bydd risgiau'r prosiect yn dod yn gliriach yn dilyn ymgysylltu â'r farchnad yn gynnar |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel (Egni)**<br>Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Amlinellol Strategol | • Cytuno i ddatblygu Achos Amlinellol Strategol cyn yr Achos Busnes Amlinellol<br>• Gweithdy Strategol Achos dros Newid wedi'i gynnal ym mis Mawrth | • Parhau i ddatblygu'r Achos Busnes Strategol, a'i gyflwyno i'r Bwrdd Rhaglen<br>• Caffael cam cyntaf cyflawni prosiectau - dymchwel adeiladau presennol i wneud lle ar gyfer adeilad newydd Egni | | • Cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol wedi'i oedi tan fis Rhagfyr 2022<br>• Cais i newid ac effaith ar Amcanion Gwariant Rhaglenni i'w hystyried ymhellach fel rhan o'r OBC |
| **Ynni Lleol Blaengar**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Amlinellol Strategol | • Achos Amlinellol Strategol wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Rhaglen. Mae'r ffordd ymlaen a ffefrir yn cynnwys sefydlu cronfa i gefnogi prosiectau ynni carbon isel ledled y rhanbarth.<br>• Sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd gyda chronfeydd tebyg o ranbarthau eraill wedi darparu cyngor a gwersi a ddysgwyd gwerthfawr.<br>• EA Technology wedi'u penodi i gyflawni astudiaethau dichonolrwydd i safleoedd peilot posib ar gyfer systemau ynni lleol blaengar. | • Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol a gweithdai cysylltiedig<br>• Parhau i gyflawni astudiaethau dichonolrwydd y system ynni lleol blaengar | | • Prosiect ar y trywydd iawn heb unrhyw risgiau / problemau sylweddol |
| Cwmni Egino | Disgwylir i'r broses achos busnes ddechrau yn 2022/23 | • Datblygu achos busnes ar gyfer datblygu Cwmni Egino ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol<br>• Recriwtio Prif Weithredwr Cwmni Egino, arweinydd ymgysylltu â rhanddeiliaid a chyfarwyddwyr anweithredol | • Ymgysylltu â pherchennog a gweithredwr y safle ynghylch y cytundeb cydweithredu<br>• Datblygu rhaglen er mwyn datblygu'r cynnig busnes a sicrhau partner technoleg i alluogi camau nesaf y prosiect<br>• Cwmni Egino i ddarparu diweddariad i'r Bwrdd Rhaglen | | • Risg o oedi wrth gaffael partner technoleg ac oedi dilynol i ddatblygu sgôp ac achos busnes y prosiect |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt<br>(dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

Tudalen 81

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed |
|---|---|---|---|
| Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael. | 2280 | £1.29bn | £355.4m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Melyn) | • Gellid defnyddio methodolegau Dylunio ar gyfer Gweithgynhyrchu a Chydosod ym Mharc Bryn Cegin, Bangor er mwyn bodloni datganiad sefyllfa Uchelgais Gogledd Cymru ar ostyngiadau mewn carbon gweithredol ac ymgorfforedig.<br>• Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cymeradwyo cyllid i ddatblygu Uwchgynllun ar gyfer safle Prosiect Porth y Gorllewin ac i gefnogi sylwadau'r Cynghorau i Banel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gymeradwyo uwchraddio Cyffordd yr A483.<br>• Warren Hall, Brychdyn - Gohiriwyd yr adroddiad ar Archwiliad Cyhoeddus o'r Cynllun Datblygu Lleol oherwydd Strategaeth Lleihau Ffosffad Dalgylch Dyfrdwy sydd bellach wedi'i chymeradwyo ond mae hyn wedi golygu bod disgwyl cyhoeddi adroddiad yr Arolygwyr ar ôl yr Etholiadau Lleol.<br>• Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych - mae Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a Jones Bros a'u tîm ymgynghori yn trafod cyflawni'r prosiect.<br>• Mae'r trafodaethau Gwella Capasiti Porthladdoedd sy'n cynnwys Stena, Uchelgais Gogledd Cymru, Cyngor Ynys Môn a Llywodraeth Cymru yn parhau gyda mwy o sicrwydd ynghylch angen masnachol y diwydiant alltraeth yn y dyfodol am y gwaith hwn. |





Y Cynghorydd Hugh Evans
Aelod Arweiniol



Andrew Farrow
Uwch Berchennog Cyfrifol



David Mathews
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (Melyn) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (Coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Porth y Gorllewin, Wrecsam**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae Cyngor Wrecsam ac Uchelgais Gogledd Cymru wedi cytuno ar sylwadau ysgrifenedig drafft i gefnogi'r gwaith i uwchraddio cyffyrdd yr A483 i Banel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru.<br>• Mae Cyngor Wrecsam wedi cymeradwyo'r cyllid refeniw sy'n angenrheidiol i gwblhau'r Uwchgynllunio a'r Achos Amlinellol Strategol. | • Cwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Cyngor.<br>• Y Cyngor i gyflwyno sylwadau ffurfiol i Banel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru.<br>• Asesiad Safle Manwl (gan gynnwys asesu yn erbyn amcanion yr AC/AAS/ARhC) | | • Mae penderfyniad y Panel Adolygu Ffyrdd ar uwchraddio cyffordd yr A483 yn hanfodol i'r prosiect hwn.<br>• Graddfa risg yn adlewyrchu'r ddibyniaeth hon. |
| **Warren Hall, Brychdyn**<br>Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae'r Arolygydd Cynllunio wedi cymeradwyo'r Strategaeth Lleihau Ffosffas sy'n cael gwared ag un o'r rhwystrau sy'n weddill i gyflawni adroddiad y CDLl.<br>• Mae ffordd ystâd Warren Hall wedi'i chynnwys ym Mhanel Adolygu Ffyrdd Rhaglen Gyfalaf Priffyrdd Llywodraeth Cymru. | • Cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i Banel Adolygu Ffyrdd Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o adeiladu ffordd ystâd newydd i agor y safle i gael ei ddatblygu.<br>• Cytuno ar Gytundeb Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru. | | • Rhagwelir Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yn hydref 2022 bellach.<br>• Graddfa risg yn adlewyrchu'r ddibyniaeth hon . |
| **Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn cynnal Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd cyn asesu pa safleoedd sydd i'w cynnwys yn yr adolygiad CDLl.<br>• Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi cynnal asesiad lefel uchel o linell amser cyflawni prosiect ddiwygiedig sy'n caniatáu ar gyfer yr adolygiad CDLl wedi'i ddiweddaru | • Datblygu'r drafodaeth gyda Sir Ddinbych ynglŷn â llinell amser y Cynllun Datblygu Lleol. | | • Gallai adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol olygu na ellir cadw'r prosiect fel y nodir ar hyn o bryd yn y Cynllun Twf.<br>.<br>• Graddfa risg yn adlewyrchu'r ddibyniaeth hon |
| **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Sir Ddinbych**<br>Jones Bros (Ruthin) Limited / Cyngor Sir Ddinbych | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Darparwyd Achos Busnes Prosiect Amlinellol drafft gan ymgynghorwyr Jones Bros ond mae trafodaethau wedi'u hatal tra'n aros i fater hyfywedd y prosiect gael ei ddatrys.<br>• Cytunwyd mewn egwyddor ar senario datblygu fesul cam a ddarparwyd gan ANW i ddad-risgio'r costau datblygu annormal fel ffordd ymlaen i gyflawni'r prosiect. | • Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol sy'n ymgorffori'r Senario Datblygu Fesul Cam gyda Jones Bros a'u hymgynghorwyr.<br>• Cytuno ar yr holl gysylltiadau cytundebol a materion caffael diwygiedig gyda Jones Bros a Chyngor Sir Ddinbych. | | • Mae risg y prosiect yn dal i adlewyrchu dibyniaeth cyllid newydd a chynnydd mewn costau annormal.<br>• Graddfa risg yn adlewyrchu'r ansicrwydd hwn. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Parc Bryn Cegin, Bangor**<br>Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae'r Cytundeb Menter ar y Cyd drafft ar hyn o bryd gyda chyfreithwyr Llywodraeth Cymru i'w ddiwygio cyn dychwelyd i Uchelgais Gogledd Cymru i'w gymeradwyo.<br>• Mae'r consortiwm Dylunio ar gyfer Gweithgynhyrchu a Chydosod (DfMA) wedi cadarnhau y gall defnyddio'r DfMA leihau carbon ymgorfforedig. | • Cwblhau'r Cytundeb Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru.<br>• Cytuno ar y defnydd o achos busnes cyflenwi eiddo Llywodraeth Cymru fel Achos Amlinellol Strategol a datblygu Achos Cyfiawnhau Busnes gwell. | Gwyrdd | • Mae galw gan feddianwyr posib yn ymddangos yn gryf.<br>• Perchennog tir parod<br>• Defnydd arfaethedig sy'n cydymffurfio a Pholisi Cynllunio. |
| **Porth Caergybi**<br>Stena Line Ports Limited | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae trafodaethau i ariannu'r gwaith o adnewyddu Morglawdd Caergybi wedi bod yn mynd rhagddynt<br>• Mae Stena, Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn ac Uchelgais Gogledd Cymru wedi cynnal trafodaethau i ddeall gofynion y porthladd ac amserlenni ar gyfer gweithredwyr ar y môr.<br>• Mae Stena wedi cyfarwyddo ymgynghorwyr i ddechrau drafftio Achos Busnes Amlinellol. | • Mae'r partïon perthnasol yn cytuno ar y cyllid i adnewyddu'r morglawdd.<br>• Cytuno gyda Stena ynghylch cyflawni Achos Busnes Amlinellol ar gyfer cyflawni gwaith ehangu capasiti'r porthladd ac amserlen ar gyfer cyflawni'r prosiect. | Ambr | • Mae'r awydd i ddefnyddio'r porthladd ar gyfer prosiectau ynni ar y môr gan ddiwydiant bellach yn fwy sicr bellach.<br>• Mae graddfa risg y prosiect yn adlewyrchu cydbwysedd o'r uchod. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwyrdd | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | Ambr | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | Coch | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed |
|---|---|---|---|
| Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'n tirwedd. | 380 | £281m | £41.3m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Coch) | • Mae Coleg Cambria yn ystyried y camau nesaf ar gyfer eu Prosiect Fferm Sero Net yn dilyn Adolygiad Porth 2 ym mis Tachwedd 2021 o'u Hachos Busnes Amlinellol, gan adlewyrchu'n benodol ar gyfraniad y prosiect i'r targed swyddi rhanbarthol ac alinio â nodau amgylcheddol cenedlaethol ehangach sy'n ymwneud â llygredd a bioamrywiaeth.<br>• Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi bod yn gweithio gyda'r Swyddfa Rheoli Portffolio i gwmpasu strwythur y prosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth o ystyried y bartneriaeth rhwng y coleg a phartneriaid yn y sector preifat.<br>• Mae Grŵp Llandrillo Menai yn gweithio tuag at gais cyn-cynllunio ar gyfer Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon drwy arolygon amgylcheddol a thrafnidiaeth.<br>• Mae'r tri busnes yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth Cynllun Arloesi ar gyfer Datgarboneiddio drwy Ymchwil Busnesau i'r System Gyfan (WBRID) yn cwblhau eu prosiectau Fferm Sero Net gan arddangos treulio anaerobig y gellir ei ehangu, cefnogaeth drôn ar gyfer tasgau fferm a datblygu llwyfan ôl-troed carbon ar gyfer ffermwyr da byw. |





Cyng Charlie McCoubrey
Aelod Arweiniol



Jane Richardson
Uwch Berchennog Cyfrifol



Robyn Lovelock
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (Ambr) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (Coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Datblygu cais cyn-cynllunio yn barhaus<br>• Adolygu methodoleg derbyn tenantiaid<br>• Gwaith parhaus gydag ymgynghorwyr ar y dyluniad | • Cynnydd y cais cyn-cynllunio<br>• Integreiddio allyriadau carbon a methodoleg bioamrywiaeth i'r cam Achos Busnes Llawn<br>• Cynhyrchu Achos Busnes Llawn drafft | | • Caniatâd cynllunio i'w sicrhau.<br>• Bwlch ariannu posib yn sgil costau cyfalaf adeiladu yn cynyddu |
| **Fferm Sero Net Llysfasi**<br>Coleg Cambria | Cwblhau'r Achos Busnes Amlinellol | • Adolygu adborth ar argymhellion Adolygiad Porth 2<br>• Trafodaethau gyda rhanddeiliaid ynghylch blaengynllun o Adolygiad Porth 2 | • Cadarnhau sgôp diwygiedg y prosiect gan ystyried canfyddiadau'r Adolygiad<br>• Cychwyn y broses rheoli newid | | • Oedi gyda'r prosiect yn ymgorffori adborth adolygiad Porth 2 |
| **Rhwydwaith Talent Twristiaeth**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Agweddau cyfreithiol strwythur y prosiect wedi'u hymchwilio ar gyfer model gweithio canolfan ac is-ganolfannau<br>• Gweithdai rhanddeiliaid a'r gwaith o ddatblygu'r achos busnes wedi'u hoedi er mwyn datrys y cwestiynau cyfreithiol | • Ymgysylltu â rhan-ddeiliaid y prosiect<br>• Cadarnhau'r sefyllfa gyfreithiol ar strwythur y prosiect<br>• Bwrw ymlaen â Gweithdai Achos Busnes | | • Strwythur cyfreithiol y model prif ganolfan a lloerennau i'w gytuno<br>• Datblygiad yr achos busnes yn rhedeg ar ôl yr atodlen |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt<br>(dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel. | 180 | £114m | £39.5m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Bwrdd Rhaglen yn cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol Prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter Prifysgol Glyndŵr Wrecsam (Mawrth 2022). Ystyriaeth y Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Ebrill 2022.<br>• Cwblhaodd y Swyddfa Rheoli Portffolio a'r Bwrdd Rhaglen adolygiad achos busnes o Achos Amlinellol Strategol y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol, ystyriaeth i gymeradwyo ym mis Ebrill 2022.<br>• Mae'r ddau brosiect yn gweithio i integreiddio'r dull Allyriadau Carbon a Bioamrywiaeth yn y broses achosion busnes.<br>• Cafodd Adolygiad Porth 1 o brosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol Prifysgol Bangor radd hyder o Ambr. |





Cyng. Dyfrig Siencyn
Aelod Arweiniol



Uwch Berchennog Cyfrifol



Robyn Lovelock
Rheolwr Rhaglen

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt<br>(dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter**<br>Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Bwrdd Portffolio yn ystyried cais am newid ar gyfer amcanestyniadau cyfalaf a refeniw<br>• Bwrdd Rhaglen yn cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol<br>• Cymryd rhan mewn ymweliad ag AMRC i ddatblygu cyfleoedd cydweithio rhanbarthol | • Bwrdd Uchelgais Economaidd yn ystyried achos busnes amlinellol (Ebrill 2022)<br>• Integreiddio methodoleg allyriadau a bioamrywiaeth<br>• Paratoi ar gyfer caffael ac ystyriaeth o'r FBC | | • Eglurhad o'r sefyllfa cyllid cyfatebol<br>• Dechrau'r broses cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol |
| **Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol**<br>Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Recriwtio Rheolwr Prosiect<br>• Datblygu achos economaidd gan gynnwys gweithdy i randdeiliaid<br>• Adolygiad y PMO a'r Bwrdd Rhaglen o'r Achos Amlinellol Strategol<br>• Cymryd rhan mewn ymweliad ag AMRC i ddatblygu cyfleoedd cydweithio rhanbarthol<br>• Adolygiad Porth 1 wedi'i gynnal a chafodd radd hyder o Ambr. | • Datblygu manylion y cais am newid ar gyfer amcanestyniadau cyfalaf a refeniw<br>• Ystyriaeth y Bwrdd Rhaglen o'r Achos Amlinellol Strategol<br>• Dechrau datblygu'r Achos Busnes Amlinellol<br>• Integreiddio methodoleg allyriadau a bioamrywiaeth | | • Cais i newid sy'n weddill ar gyfer rhagamcanion cyfalaf a refeniw<br>• Dechrau'r broses gymeradwyo'r achos amlinellol strategol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |




| Programme | Project | OBC | Start on Site | Project Completion |
|---|---|---|---|---|
| Digital Programme | Digital Signalling Processing Centre | Aug-21 | Jan-22 | Dec-23 |
| | Competitive Connectivity (Full Fibre) | Jul-22 | Dec-22 | Feb-24 |
| | Connected Corridor | Apr-22 | Nov-22 | May-24 |
| | Connected Campus (Adv. connectivity) | Jul-22 | Dec-22 | Feb-25 |
| | Last few % | Feb-22 | Sep-22 | May-24 |
| Low Carbon Energy | Morlais | May-21 | Feb-22 | Jun-23 |
| | Trawsfynydd Power Station | Jun-23 | Jun-24 | Apr-27 |
| | Low Carbon Energy Centre of Excellence | Apr-22 | Jun-23 | Jun-25 |
| | Smart Local Energy | Sep-22 | Jun-23 | 2028 |
| | Transport Decarbonisation | Apr-22 | Oct-23 | Oct-24 |
| Land and Property | Holyhead Gateway | Jun-22 | Mar-23 | Jun-26 |
| | Former North Wales Hospital, Denbigh | Feb-22 | June-22 | Mar-26 |
| | Key Strategic Site, Bodelwyddan | Sep-24 | Sep-25 | Mar-27 |
| | Western Gateway, Wrexham | Dec-22 | Oct-23 | Mar-25 |
| | Warren Hall, Broughton | Sep-22 | Oct-23 | Sep-24 |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Jan-23 | Oct-23 | Jun-24 |
| Agrifood and Tourism | Glynllifon Rural Economy Hub | Aug-21 | Jan-23 | Mar-24 |
| | The Llysfasi Net Zero Farm | Feb-22 | Aug-22 | Sep-23 |
| | Tourism Talent Network | Jun-22 | Oct-23 | Oct-24 |
| Innovation in High Value Manufacturing | Centre for Biotechnology | Apr-22 | Jun-23 | Jun-25 |
| | Enterprise Engineering & Optics Centre | Feb-22 | Aug-22 | Apr-24 |



*Proffil cyflawni yn unol ag Achos Busnes y Portffolio 2021. Os yw Achos Busnes Amlinellol neu Achos Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo mae'r ffigyrau wedi'u diweddaru gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.
** Caiff y proffil ei ddiweddaru i ystyried newidiadau'r Rhaglen Ddigidol yn dilyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

# 9. Tabl Olrhain Amcanion Gwario Prosiectau'r Cynllun Twf - Trosolwg o gyflawni

| | | Targedau Achos Busnes y Portffolio 2020 | | | Targedau Achosion Busnes y Prosiectau sydd wedi'u | | | | Gwahaniaeth | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | OBC/ FBC** | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd (net) | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* |
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | 50 | 80 | 7.3 | FBC | 12 | 33 | 3.0 | -38 | - 47 | - 4.3 |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | 35 | 150 | 4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Coridor Cysylltiedig | 25 | 0 | 2.2 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Ffibr llawn mewn Safleoedd Allweddol | 20 | 120 | 7.2 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Campysau Cysylltiedig | 35 | 0 | 21 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | 50 | 100 | 36 | OBC | 79 | 210 | 34 | +29 | +110 | - 2 |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | 60 | 90 | 28.6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | 20 | 20 | 97.7 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Ynni Lleol Blaengar | 120 | 180 | 106.2 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | 230 | 510 | 400 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | 220 | 360 | 43.4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Warren Hall, Brychdyn | 235 | 440 | 70 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | 125 | 250 | 82 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | 20 | 50 | 74 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | 30 | 50 | 6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Porth Caergybi | 545 | 930 | 80 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | 25 | 40 | 13 | OBC | 45 | 96 | 13 | +20 | +56 | 0 |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | 215 | 310 | 15.4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | 20 | 0 | 12.9 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | 45 | 70 | 29.9 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | 60 | 90 | 9.6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Cyfanswm Portffolio'r Cynllun Twf | | 2,185 | 3,830 | 1,146 | 2 OBC<br>1 FBC | 136 | 342 | 50 | +49 | +119 | - 6.3 |

* Cyfanswm buddsoddiad yn cynnwys 1.5% o gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio

** OBC - Achos Busnes Amlinellol, FBC - Achos Busnes Llawn

## 10. Proffil Gwariant Grant y Cynllun Twf - Achos Busnes y Portffolio 2021

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | 2021/22 £m | 2022/23 £m | 2023/24 £m | 2024/25 £m | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m | 2028/29 £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol** | Prifysgol Bangor | 1.82 | 0.70 | 0.44 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.69 | 1.97 | 1.28 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| | Coridor Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.49 | 1.18 | 0.50 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.17 |
| | Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.49 | 3.05 | 3.16 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.70 |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.30 | 3.84 | 5.81 | 5.81 | 4.92 | 0.00 | 20.68 |
| Ynni Carbon Isel | Morlais** | Menter Môn | 0.00 | 4.93 | 3.94 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 3.94 | 3.94 | 3.35 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.23 |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | Prifysgol Bangor | 0.00 | 1.18 | 8.47 | 9.36 | 1.67 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 20.68 |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 1.23 | 1.97 | 6.16 | 6.16 | 6.16 | 2.95 | 24.63 |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 4.93 | 9.85 | 4.92 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 19.70 |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 4.04 | 4.92 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.96 |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.30 | 1.18 | 5.91 | 7.38 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 14.77 |
| | Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.49 | 0.99 | 5.42 | 2.95 | 0.00 | 9.85 |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.99 | 0.99 | 0.98 | 0.98 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais Economaidd | 0.00 | 0.25 | 2.71 | 2.95 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 |
| | Porth Caergybi | Stenaline | 0.00 | 0.00 | 11.33 | 13.79 | 9.35 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 34.47 |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon** | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 6.90 | 2.95 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | Coleg Cambria | 0.00 | 4.93 | 4.92 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.48 | 1.48 | 1.47 | 0.00 | 0.00 | 4.43 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | 0.00 | 6.40 | 3.15 | 0.30 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 1.23 | 1.73 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| | | | | | | | | | | Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio (1.5%) | 3.60 |
| | | | | | | | | | | Cyfanswm | 240.00 |

* Mae proffil dyraniad cyllid cyfalaf y Cynllun Twf yn seiliedig ar Achos Busnes Portffolio 2021.
** Os yw Achos Busnes Amlinellol neu Achos Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo mae'r ffigyrau wedi'u diweddaru gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | Proffil 21/22 (£m) | YTD Gwirioneddol | Amrywiad (£m)* | Sail Resymegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 1.82 | 0.123 | -1.7 | Llithriad yng ngwariant prosiect DSP o 21-22 i 22-23 gan na fydd archebion a osodir yn cyrraedd cyn diwedd y flwyddyn ariannol.<br><br>Bydd gwariant yn digwydd yn gynnar yn 22-23. |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Coridor Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2021 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2021 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Porth Caergybi | Stenaline | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2021 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | Coleg Cambria | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo. Proffil gwariant bellach yn cyd-fynd â diweddariad 2021 Achos Busnes y Portffolio. |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | | **Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio (1.5%)** | **0.384** | **0.219** | **-0.165** | **Gwariant yn is na'r disgwyl, yn bennaf yn sgil oedi gyda phrosiectau.** |
| | | **Cyfanswm** | **2.204** | **0.342** | **-1.865** | **Gweler uchod** |

* Amrywiaeth yw'r gwahaniaeth rhwng y proffil a gynlluniwyd (Achos Busnes y Portffolio 2021) a gwariant Gwirioneddol y Flwyddyn Hyd Yma (YTD). Ffigyrau YTD hyd at ddiwedd Rhagfyr 2021.

| Prosiect | Cam Caniatâd | | | | Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 | Cam 4 | Cam 5 | Cam 6 | Cam 7 | Cam 8 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Y cyfnod cyn gwneud cais | Cynllunio amlinellol / Caniatâd | Cynllunio llawn / Caniatâd | Amodau wedi'u gweithredu | Pennu cyd-destun y Prosiect | Paratoi'r Achos Amlinellol Strategol | Paratoi'r Achos Busnes Amlinellol | Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol | Paratoi'r Achos Busnes Llawn | Cymeradwyo'r Achos Busnes Llawn | Gweithredu a monitro'r prosiect | Gwerthuso'r Prosiect |
| Canolfan Prosesu Signal Digidol | Dim angen cynllunio | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | |
| Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Coridorau Cysylltiedig | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Campysau Cysylltiedig | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Yr ychydig % olaf | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Morlais | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | |
| Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | ⏱ | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Ynni Lleol Blaengar | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Porth Caergybi | Gorchymyn Adolygu Harbwr wedi'i gyflwyno a Thrwydded Morol wedi'i rhoi | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Cyn Ysbyty Gogledd Cymru | ✓ | ✓ | ⏱ | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | Angen CDLl newydd | | | | ⏱ | | | | | | | |
| Porth y Gorllewin | Mabwysiadu'r CDLl i'w gwblhau | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Warren Hall | Mabwysiadu'r CDLl i'w gwblhau | | | | ⏱ | | | | | | | |
| Safle Strategol Bryn Cegin | ⏱ | | | | ⏱ | | | | | | | |
| Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | ⏱ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ⏱ | | | |
| Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Gofynion cymeradwyo i'w cadarnhau | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Dim angen cynllunio | | | | ✓ | ⏱ | | | | | | |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ⏱ | | | | | |

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | Prifysgol Bangor | Bydd y prosiect yn galluogi i'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol ymestyn ei bresenoldeb a'i gylch gwaith, gan integreiddio'n llawn â'r Prosiect Strategaeth Cenedlaethol a galluogi datblygu asedau allweddol ar raddfa, gan gynnwys prawf-wely 5G, capasiti ymchwil ac offer o'r radd flaenaf. |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Mae'r prosiect hwn yn targedu gwasanaeth cyflym iawn hollgynhwysol ar draws y Gogledd, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu hyd yma gan ddulliau eraill ac na allant gyflawni cyflymder o 30Mbps (lawrlwytho) o leiaf ar hyn o bryd. |
| | Coridor Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno darpariaeth symudol lled band uchel ar rwydweithiau trafnidiaeth ffyrdd a rheilffyrdd gyda defnydd yn cyd-fynd â tharged Llywodraeth y DU, neu cyn hynny. Y ffocws cyfredol yw darpariaeth 4G safon uchel a hwyluso defnyddio 5G. Darpariaeth ar draws yr A55, yr A483 a'r A5. |
| | Ffibr llawn mewn safleoedd allweddol | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Bydd y prosiect hwn yn cyflawni cysylltedd ffeibr llawn (addas ar gyfer gigabit) gyda ffocws cyfredol ar 28 o safleoedd busnes allweddol ar draws y Gogledd. |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Bydd y prosiect yn ceisio cyflymu datblygiad ystod o opsiynau cysylltedd digidol gyda ffocws cyfredol ar 18 o safleoedd economaidd rhanbarthol allweddol. |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | Menter Môn | Adeiladu'r seilwaith sy'n cysylltu Parth Morlais â'r system grid trydan, gan baratoi'r safle ar gyfer datblygwyr sector preifat i lesu rhannau o'r parth ar gyfer defnyddio technolegau ynni llanwol. |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cefnogi cyflawni prosiect arddangos sy'n ymwneud â chynhyrchu hydrogen gwyrdd o ffynonellau ynni carbon isel a'i ddefnydd o fewn rhwydweithiau trafnidiaeth rhanbarthol. |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | Prifysgol Bangor | Buddsoddi mewn datblygu'r isadeiledd ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gwella galluedd y Gogledd a'r DU ar gyfer arloesedd mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnfuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel yn y Gogledd |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Er mwyn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol, bydd y prosiect yn cefnogi prosiectau hwyluso arloesol ac arddangoswyr sy'n goresgyn methiannau'r farchnad a datgloi buddsoddiad sector preifat a chymunedol mewn datrysiadau ynni lleol blaengar. |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | Mae'r safle wedi'i leoli'n unigryw ar gyfer gwneud defnydd 'Cyntaf o'i Fath' o Adweithydd Modwlar Bychan (SMR) neu Adweithydd Modwlar Uwch (AMR). Ar y cyd â'r sector cyhoeddus a phreifat, bydd y Cynllun Twf yn cyfrannu cyllid tuag at isadeiledd galluogi ar gyfer y datblygiad hwn. |

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu. |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno prif wasanaethau fel bod modd i'r safle defnydd cymysg 65 hectar gael ei roi ar y farchnad ar werth ac yna gael ei ddatblygu gan y sector preifat. |
| | Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle datblygu preswyl a masnachol defnydd cymysg i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu. |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Darparu arwynebedd llawr diwydiannol i fodloni'r galw hysbys am unedau. |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Bydd arian y Cynllun Twf yn cynorthwyo yng nghyflwyniad safle wedi'i glirio a'i adfer gyda phrif wasanaethau er mwyn dwyn ymlaen datblygiad preswyl a masnachol defnydd cymysg |
| | Porth Caergybi | Stena Line | Sicrhau dyfodol porthladd Caergybi drwy ddarparu cyfleusterau mordeithio a llwytho trwm dŵr dwfn, gwella mynediad cerbydol, gwarantu dyfodol y morglawdd a darparu ar gyfer galwadau prosiectau ynni rhanbarthol. |
| Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | Y weledigaeth yw creu Canolbwynt Economi Gwledig arbennig o'r radd flaenaf yng Nglynllifon, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i gryfhau a gwella'r economi rhanbarthol, yn benodol drwy dyfu'r sector bwyd a diod. |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | Coleg Cambria | Nod Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi yw arwain y Gogledd at ddyfodol gwydn lle mae rheolaeth tir carbon niwtral yn ganolog i sector ynni adnewyddadwy datblygol sy'n cefnogi cymuned gynaliadwy, ffyniannus ac iach sy'n cwmpasu cymysgfa wledig/trefol y rhanbarth. |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | Sicrhau dyfodol yr ystod o ddarpariaeth sgiliau a chynyddu buddion masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig yn y rhanbarth. Bydd y rhwydwaith talent yn ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth. |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB) | Prifysgol Bangor | Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn ganolfan gyda'r gorau yn y byd o ran canfod a nodweddu ensymau newydd o bwys diwydiannol. Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn darparu sylfaen gref ar gyfer denu ymchwilwyr blaenllaw ar lefel fyd-eang, cyllid ymchwil cyhoeddus a masnachol arwyddocaol a mewnfuddsoddiad i Gymru. |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn darparu cyfleusterau sydd wedi'u targedu i roi hwb i ddatblygu sgiliau lefel uchel i'r rhanbarth a galluogi i fusnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar ymchwil a datblygu opteg, cyfansoddion a thanwydd cell hydrogen sy'n cael ei yrru'n fasnachol. |

This page is intentionally left blank